Rhifyn 28 tudalen BARGEN!

# Y TINCER

PRIS 40c

Rhif 310

Mehefin 2008

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# CORON I DEWI HUW

Dewi Huw Owen, Maes Ceiro, Bow Street ac Aelwyd Pantycelyn, Aberystwyth, yw prif lenor Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Conwy .

Ganed Huw yn Aberystwyth a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Rhydypennau, Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth, ac ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth, lle graddiodd y llynedd gyda gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg. Dychwelodd yno ym mis Hydref 2007 i ddilyn cwrs ymchwil uwchraddedig, ac i lunio traethawd MPhil ar nofel gyntaf Winnie Parry, sef *Sioned*. Mae gan Huw gysylltiadau teuluol cryf â phentref Caerfarchell, ar benrhyn Dewi, ac yno, yn y cartref teuluol, y mae ei rieni'n byw bellach.

Mae Huw'n gweithio fel aelod o dîm monitro Mercator, sy'n monitro rhaglenni S4C fel rhan o'r ysgoloriaethau sy'n ei gynnal yn ystod ei fyfyrdodau. Mae'n aelod o Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol CYD, a bu'n dysgu seminarau Cymraeg ail iaith yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Pan na fydd yn gweithio, bydd Huw'n mwynhau chwarae pŵl, treulio amser hamdden yng nghaffis niferus ac amrywiol Aberystwyth, darllen a thrio chwarae golff!

Dyma'r tro cyntaf iddo



gystadlu am Goron Eisteddfod yr Urdd.

Dywedodd y beirniaid Eigra Lewis Roberts a Cefin Roberts am waith Huw:

"Does dim dwywaith nad oes gan hwn ddawn arbennig. Mae'n ddigri, yn goeglyd, ac yn arbrofol."

Ceri Elen, Aelwyd CF1, Caerdydd, ddaeth yn ail a Sioned Elin Hughes, Aelod Unigol o Landrindod ddaeth yn drydydd . Rhoddir replica'r goron eleni gan Ceir Cymru a Brodwaith Cyf., a noddwyd y seremoni gan HSBC

Daeth Huw hefyd yn gydradd drydydd gyda chyd-fyfyriwr o Aberystwyth am y gadair dydd Iau.

Roedd y profiad o ennill Coron Eisteddfod yr Urdd yn Eisteddfod Sir Conwy eleni, a hynny ar fy nghynnig cyntaf, yn un bythgofiadwy. Bûm am oddeutu pythefnos yn celu'r gyfrinach oddi wrth ymron i bawb ag eithrio fy rhieni, fy nghariad, ac un cyfaill agos – afraid dweud y bu'r pythefnos hwnnw, yn enwedig sioc a syndod ei ddechrau, a nerfau disgwylgar ei ddiwedd, yn un hynod gyffrous!

Rhaid oedd imi, tan gyngor prif swyddogion yr Urdd, ymbresenoli yn y pafiliwn tuag awr cyn y Coroni, ac fel y mae fy nghariad o hyd yn tystiolaethu, yr oeddwn, wrth wylio'r cystadlaethau llwyfan yn y cyfnod byr hwnnw yn union cyn cychwyn y seremoni, yn llawn o ryw blethiad rhyfedd o densiwn pryderus ar y naill law, a brwdfrydedd cyffrous ar y llall. Fodd bynnag, gyda dechrau gweithgareddau'r Coroni diflannodd y pryder hwnnw ac fe'm maglwyd gan gyffro'r digwyddiad am weddill y dydd.

Mwynheais y seremoni ei hun yn fawr iawn, o orfoledd yr orymdaith o'm sedd i'r llwyfan i fwrlwm a hwyl y dawnsio. Hynod o beth oedd gweld addasiad o'm gwaith ar wal fideo'r llwyfan, a chlywed geiriau a brawddegau mor gyfarwydd yn cael eu hadrodd, eu hactio a'u dehongli mewn dull mor gelfydd. Yn ogystal, megis yn seremoni'r Cadeirio ar ddydd Iau'r Eisteddfod gyda Myrddin ap Dafydd ac Iwan Llwyd, profais wefr nas gellir mo'i lwyr ddisgrifio mewn geiriau, o glywed beirniaid a chanddynt y fath ddawn lenyddol ag Eigra Lewis Roberts a Chefin Roberts yn pwyso a mesur fy ngwaith. Fel nodais wrth siarad â'r wasg yn dilyn diweddglo'r seremoni, mae presenoldeb y fath feirniaid yn anochel yn denu cystadleuwyr, ac yn ein hannog i roi o'n gorau wrth gystadlu.

Bu gweddill y diwrnod yn un rhuthr o gyfweliadau a chamerâu fflach, wrth imi gael fy hebrwng o fan i fan ar hyd y maes i drafod fy llwyddiant yng nghystadleuaeth y Goron, ynghyd â'r gweithiau llenyddol oedd wrth ei wraidd, gyda aelodau'r wasg. Ymhen hir a hwyr, daeth diwedd i'w cwestiynau, a dychwelsom, gyda'r goron yn ei blwch, i'r gwesty yn Llandudno lle'r oeddem yn aros fel teulu'r noswaith honno, yn dra blinedig. Ond er yr holl flinder, yr oedd y wên dawel, ddedwydd honno, oedd wedi ffurfio'n raddol ar hyd fy wyneb yn ystod y dydd, bellach wedi tyfu i'w llawnder, ac wedi ymgartrefu ar hyd fy ngruddiau. Rhodiais ar hyd promenâd Llandudno yng nghwmni fy nghariad gan wylio'r haul yn machlud, a gwenais, fel nas gwenais erioed o'r blaen.

**Dewi Huw Owen**

Y tro cyntaf i mi ddod ar draws Dewi Huw oedd mewn cystadlaethau'r Urdd - llefarydd hyderus a pherfformiwr cadarn mewn ymgom. Fel disgybl, wel ... 'roedd e'n brofiad unigryw i addysgu rhywun mor alluog â Dewi Huw. Doedd dim angen hyfforddiant ar destunau cynnar arno - 'roedd e'n hoffi darllen y deunydd anodd ei hunan a'i ddehongli'n ddeallus. 'Roedd y ddawn ganddo i dreiddio dan yr wyneb a dadansoddi unrhyw destun, boed farddoniaeth neu ryddiaith gyda threiddgarwch a gwreiddioldeb. Ysgrifennwr creadigol? Wrth gwrs, ... dyma fflach arbennig, ac eleni: llongyfarchiadau calonnog ar lwyddiant haeddiannol a phob hwyl eto yn y dyfodol!

**Nerys Llewelyn Davies, Ysgol Penweddig**



## Actor ifanc

Llongyfarchiadau i Sion Wyn Hurford, Penrhyn-coch, actor ieuengaf Cwmni Licris Alsorts, a dderbyniodd wobr arbennig yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon

(Gweler tudalen 16 )

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 301 | Medi 2007



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
✉ Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - David England
Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER**
Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**BOW STREET**
Mrs Siân Evans, 43 Maes Afallen ☎ 828133
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, ☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**LLANGORWEN/ CLARACH**
Mrs Jane James, Gilwern ☎ 820695

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

**Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MEDI 4 A MEDI 5 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MEDI 18**

**MEHEFIN 21** Dydd Sadwrn Te mefus yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch

**MEHEFIN 22** Nos Sul Cyngerdd gyda Catrin Finch ac enillwyr Ceredigion Eisteddfod yr Urdd 2008 ym Mhafiliwn Ponthydfendigaid am 7.00 Tocyn £8.00

**MEHEFIN 24** Bore Mawrth Bore Agored gan Gylch Meithrin Trefeurig o 10:30 tan 12:00

**MEHEFIN 27** Nos Wener Pwyllgor Apel Etholaeth Melindwr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Ceredigion 2010 Cynhelir Cyfarfod Cyhoeddus yng Nghwesty'r Hafod, Pontarfynach am 7.30 pm Croeso Cynnes

**MEHEFIN 27- GORFFENNAF 3**
Nosweithiau Gwener
Sleep Furiously: blwyddyn yn hanes Trefeurig. Ffilm gan Gideon Koppel yng Nghanolfan y Celfyddydau (623232)
Nos Wener, Sadwrn, a Llun am 5.45 a 8.15; nos Sul am 5.30; dydd Mawrth am 2.30 a 5.45; nos Iau am 8.15

**GORFFENNAF 2** Dydd Mercher Trip Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street i Abergwaun; cychwyn am 1.00

**GORFFENNAF 11** Nos Wener Noson yng nghwmni Geraint Lovgreen a'r Enw Da yn Llety Parc am 7.00 .Tocynnau £20 yn cynnwys pryd o fwyd tri chwrs gydag adloniant pan yn gwledda. Trefnir gan Bwyllgor Apêl y Faenor Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2010 Ceredigion

**GORFFENNAF 12** Nos Sadwrn Noson goffi Cangen Rhydypennau Plaid Cymru yn Llys Maelgwyn, Bow Street o 7.00 ymlaen. Croeso cynnes i bawb.

**GORFFENNAF 15** Nos Fawrth Pwyllgor Apêl Plwyf Trefeurig Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010 yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch am 7.30

**GORFFENNAF 16** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Noddfa, Bow Street am 7.30

**GORFFENNAF 21-24** Dyddiau Llun i Iau Y Sioe Fawr - Llanelwedd

**GORFFENNAF 22** Dydd Mawrth Ysgolion Ceredigion yn cau am wyliau'r haf

**GORFFENNAF 25** Nos Wener Ras Peli - Rhiw Tanffordd dan nawdd Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor 6.30 pm Croeso Cynnes

**AWST 2** Dydd Sadwrn Sioe Capel Bangor a'r cylch Caeau Maesbangor

**AWST 16** Dydd Sadwrn Sioe Penrhyn-coch

**MEDI 3** Dydd Mercher Ysgolion Ceredigion yn ail agor ar ôl gwyliau'r haf

**MEDI 5** Nos Wener Barbiciw a disgo a tynnu raffl (tocynnau ar werth gan aelodau'r Pwyllgor ac eraill) yng Nghlwb Pêl-droed Penrhyn-coch am 6.30

**MEDI 6** Dydd Sadwrn Sioe Trefeurig

**MEDI 17** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Mererid Hopwood yn festri Horeb am 7.30

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Mai

**£15** (Rhif 9) Mrs S J Jones, Bryn Dryw, Bow Street.
**£10** (Rhif 83) Mrs Jane Jenkins, Y Garej, Penrhyn-coch.
**£5** (Rhif 64) Mr Steven Williams, Llys Y Coed, Penrhyn-coch.

**Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.**

Nid yw'r Pwyllgor o angen-rheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn.

Cyhoeddir Y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor Y Tincer. Argreffir gan Y Lolfa, Tal-y-bont

Deunydd i'w gynnwys

Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyrau neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu y rhifyn**

| | |
|---|---|
| Tudalen gyfan | £70 |
| Hanner tudalen | £50 |
| Chwarter tudalen | £25 |
| Hysbyseb fach | £6 y rhifyn (£30 am flwyddyn) |

Cysylltwch â'r trysorydd.

**Y Tincer drwy'r post**

Pris 10 rhifyn - £9 (£17 i wlad y tu allan i Ewrop).Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp**

Cofiwch fod modd cael Y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Mae pymtheg eisoes yn manteisio ar y cynnig. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Mrs Vera Lloyd, 7 Maes Ceiro, Bow Street ☎ 828555.

**Camera'r Tincer**

Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# Brwydr y Bandiau Mentrau Iaith Cymru ac C2 Radio Cymru 2008

Bydd Stone Free, band lleol yn cystadlu yn rownd derfynol Brwydr y Bandiau ar Radio Cymru C2 ar nos Fercher 2 Gorffennaf am 8.00pm.

Grŵp o ffrindiau ysgol yw Stone Free, sef, Chris Evans o Benrhyn-coch ar y Gitâr/Llais, Liam Matthews o Langwyryfon ar yr Allweddellau, Gethyn Friswell o Gapel Seion yn chwarae'r Gitâr Fas, a Dafydd Hopkins o Bonterwyd ar y Drymiau.

Fe enillwyd rownd gynderfynol y canolbarth ar 4 Mehefin gyda mwyafrif o bleidleisiau'r gwrandawyr Radio Cymru i guro Liam Rickard o Fetws y Coed, a Castwallon ap Cranc o Aberystwyth.

Bydd Stone Free yn brysur iawn yn gigio yn ystod y misoedd nesaf gan ddechrau ar 27 Mehefin trwy agor 'Gig Mawr Bont 2008' ar nos Wener, gyda Radio Luxembourg - prif fand y noson. Yna bydd rownd derfynol Brwydr y Bandiau ar nos Fercher 2 Gorffennaf. Mae ganddynt gigs wedi eu trefnu yn Aberystwyth, Clwb Ifor Bach, Caerdydd, Bar Co yn Abertawe, 'Gig Mawr Haf' yn y Bont, Tregaron, 'The Square Festival', y Borth, a Gŵyl Ceinewydd.

## I ddyddiadur 2009

Cyhoeddodd S4C y cynhelir cystadleuaeth nesaf Côr Cymru yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn 2009. Bydd rowndiau cyn-derfynol dyddiau Gwener i Sul Chwefror 20-22 a'r rownd derfynol nos Sul Ebrill 5ed.

Dyddiadau Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2009 fydd 24-25 Ebrill.

## Gwaith Allanol Biwro Gwirfoddoli CAVO

O Ddydd Iau 26 Mehefin trefnir sesiynau gwaith allanol gwirfoddoli yng Ngwesty'r Llew Gwyn yn Nhal-y-bont. Cynhelir y sesiynau o 2pm – 6pm ar y dydd Iau diwethaf o bob mis am gyfnod prawf o chwe mis.

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli, mae croeso ichi alw i mewn yn y sesiwn gwaith allanol neu cysyllter â: Biwro Gwirfoddoli CAVO, Bryndulais, 67 Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion SA48 7AB Ffôn: 01570 423232 e-bost: infovb@cavo.org.uk

## Gwaith yn Nyffryn Camwy

Tybed oes yna ffarmwr/wraig a fyddai'n hoffi treulio 10/12 mis yn Nyffryn Camwy, y Wladfa, Ariannin i gynorthwyo ar fferm. Cynigir tocyn dwyffordd, bwthyn ar y fferm gyda phob cymwyster a chynhaliaeth. Rhaid bod dros 21 oed. Gwaith clirio sydd yna yn bennaf, a byddai'n rhaid medru defnyddio llif gadwyn yn ddiogel. Am fwy o fanylion cysylltwch â iowen@infovia.com.ar


Plant a ieuenctid eglwysi Gogledd Ceredigion

## Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

Ar ddiwrnod bendigedig o hafaidd cynhaliwyd y Gymanfa uchod dydd Sul Mai 11eg yng Nghapel Y Morfa, Aberystwyth.

Gwasanaeth y plant a'r ieuenctid yn y bore ar y thema "Sul y Pentecost".

Llywyddwyd gan y Parchg Richard Lewis, Noddfa, Bow Street, llywydd y pwyllgor, ef hefyd a gymerodd at y rhannau arweiniol gyda darlleniad o'r ysgrythur a phawb yn cydadrodd "Gweddi'r Arglwydd".

Wedi croesawu pawb i'r oedfa, cyflwynodd y gŵr gwadd i arwain y plant a'r bobl ifanc, sef Martin Geraint, a phwy gwell i adrodd "Stori'r Pentecost" gyda'i ddisgrifiad manwl o'r digwyddiad pwysig.

Cymerodd plant y gwahanol Ysgolion Sul ran yn yr oedfa trwy ddarlleniadau o'r Beibl a'r Emynau a ganwyd o'r detholiad, sgetsis a meimio.

Hyfryd oedd gweld yr holl blant yn y set fawr yn canu'r ddau emyn Iesu yw Goleuni'r Byd a Fy Fflam Fach i.

Y Parchg Andrew Lenny, Seion, Aberystwyth, a wnaeth y cyhoeddiadau, diolchiadau a thraddodi'r Fendith.

Rhoddwyd casgliad y bore o £240.09 tuag at "Cyngor Ysgolion Sul".

Bu Chwiorydd Y Morfa yn brysur yn paratoi cwpanaid o de a bisgedi i bawb a ddymunai aros ar ôl yr oedfa.

Llywydd Cymanfa'r hwyr oedd Bethan Bryn, Y Morfa. Wedi'r croeso, cyflwynodd yr emyn agoriadol. Dechreuwyd yr oedfa gyda darlleniad o'r ysgrythur gan y Parchg Wyn Rhys Morris, Y Garn, a gweddi gan y Parchg Judith Morris, Horeb, Penrhyn-coch.

Yr arweinydd gwadd eleni eto oedd Mr Alan Wynne Jones, aelod o'r Garn ac yn amlwg roedd wedi ei foddhau yn yr ymateb a gafodd gan y cantorion. Canwyd yr Emyn, rhif 22, o'r rhaglen "Er Cof" am y cyfeillion a gollwyd yn ystod y flwyddyn.

Mr Jones fu'n arwain y rihyrsals, hefyd gyda Mr David Griffiths yn cynorthwyo yn ei absenoldeb. Organydd dydd y Gymanfa a'r rihyrsals oedd Mrs Mary Jones Morris, Y Morfa, gyda Mr Ceris Gruffudd, Horeb yn cynorthwyo mewn rihyrsal.

Y llywydd wnaeth y diolchiadau a'r cyhoeddiadau. Traddodwyd y Fendith gan y Parchg Raymond Jones.

Recordiwyd oedfa'r hwyr gan gwmni Andante ar gyfer "Caniadaeth y Cysegr".

Diolch i bawb a fu wrthi yn llafurio ymhob rhan o'r gwaith er llwyddiant y Gymanfa.

**Annwyl Olygydd**

Tybed a fyddai modd i mi drwy eich papur bro ddwyn sylw i agoriad swyddogol cartref newydd Cwmni Theatr Arad Goch yn Stryd y Baddon, Aberystwyth. Mae'n canolfan wedi ei hadnewyddu'n sylweddol a chostiodd y gweddnewidiad dros 2 filiwn a hanner o bunnau – arian a ddaeth o gronfa Amcan 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Tref Aberystwyth.

Erbyn hyn rydym mewn sefyllfa i rannu'n cyfleusterau gwych gyda'r cyhoedd – ar gyfer cynnal cyfarfodydd, arddangosfeydd, cynadleddau, dosbarthiadau, cyngherddau a phob math o berfformiadau a digwyddiadau eraill. Byddwn yn lansio'r ganolfan yn swyddogol yn ystod penwythnos 4/5 Gorffennaf – gyda nifer o weithgareddau i bobl ifanc ar y nos Wener a rhywbeth i bob oed ar y dydd Sadwrn , gyda phopeth yn rhad ac am ddim. Mae manylion llawn ar ein gwefan www.aradgoch.org neu ar gael o ffonio (01970) 617998.

Un o'r gweithgareddau a gynhelir ar bnawn Sadwrn 5 Gorffennaf rhwng 1.45 a 2.45 yw sesiwn i bawb sydd â diddordeb ymuno â chwmni drama amatur Cymraeg newydd i oedolion. Yn ystod y sesiwn bydd cyfle i drafod pa fath o ddramâu yr hoffai'r aelodau berfformio a chyfle i roi tro ar gyfarwyddo neu actio o dan arweiniad Sêra Moore Williams. Felly os oes gennych ddiddordeb bod yn rhan o'r cwmni newydd hwn da chi cysylltwch â ni a dewch i'r sesiwn arbennig yma. Does dim angen profiad blaenorol – brwdfrydedd yw'r unig gymhwyster angenrheidiol.

Byddwn yn cynnal nosweithiau agored hefyd ar y 8fed a'r 9fed o Orffennaf rhwng 5 a 7 y nos – os hoffech alw draw bryd hynny rhowch wybod ac fe fydd croeso mawr i chi.

Yn gywir iawn

Dana Edwards
Swyddog Marchnata Arad Goch
Arad Goch
Stryd y Baddon
Aberystwyth

# Y BORTH

## Pen blwydd hapus!

Dymuniadau gorau i Maldwyn Williams, 38 Heol Aberwenol, ar gyrraedd carreg filltir go arbennig ar 8 Mehefin. Caiff fynd efo Susan ar y bws am ddim ar ôl y dyddiad hwn!

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Charlotte a Daniel Thomas, 12 Rhyd-y-Garreg, ar farwolaeth eu baban, Rhodri Daniel – brawd Carys ac ŵyr i Hilary a Roger Thomas, Bow Street. Cynhaliwyd yr angladd yn Horeb, Penrhyn-coch dydd Sadwrn 31 Mai.

## RNLI

Nos Wener, 2 Mai, cynhaliwyd swper "Pysgod a Sglodion" yn Nhafarn Ceffyl y Môr, pan godwyd £273 tuag at yr RNLI. Diolchir i Margaret, Glynne a Staff Ceffyl Y Môr am baratoi'r swper blasus.

## Pen blwydd

**Dau hynafgwr "ifanc" yn dathlu eu pen blwydd yn 90 oed.**

Yn gyntaf, ar Fai 1af, cafodd Dirk Lloyd amser wrth ei fodd ynghanol perthnasau a ffrindiau oedd wedi dod ynhyd ar ei wahoddiad i ginio ym Mwyty Ceffyl y Môr. Gwnaed yr achlysur yn fwy arbennig iddo trwy gael ymweliad oddi wrth cyfnither o'r Iseldiroedd, Ineke Ter Harr, yn unswydd ar gyfer ei ben blwydd. Roedd ei chwaer Gwen wedi gwneud ymdrech dda i fod yno i rannu yn y dathlu, a llawenydd iddo hefyd oedd cael dau deulu o'r Iseldiroedd sy'n byw yn lleol yn troi i mewn yn annisgwyl ar gyfer dymuno'n dda iddo. Ni fuasai dathlu pen blwydd Dirk yn gyflawn heb gael "Sing song"!, a dyna gafwyd, a Dirk yn canu rhai o'i hen ffefrynnau yn ei lais tenor melodaidd. Ry' ni'n edrych ymlaen at y nesa nawr Dirk.



Islwyn ac Evelyn Jones yn y parti dathlu

Yna ar y 13eg o Fai bu parti "syrpreis" i Islwyn Jones, y gŵr arall oedd yn dathlu'r garreg filltir arbennig yma, yn Festri'r Gerlan, oedd wedi ei drefnu gan yr aelodau sy'n addoli gydag ef yno ar y Sul. Dyna'r trydydd tro i Islwyn glywed "Pen blwydd Hapus" yn cael ei ganu iddo, gan iddo gael ei gyfarch felly yng Nghlwb yr Henoed ar Mai 8ed, ac mewn parti i'r teulu yn Llety Ceiro ddydd ei Ben blwydd ar Fai 11eg. Derbyniodd Islwyn anrheg o law y Parchedig Wyn Morris, sef llyfr hunangofiant y Parchedig Elwyn Jenkins, oedd a theitl wrth fodd Islwyn – *Pwll, Pêl, Pulpud*, gan ei fod yn dod o'r un ardal, wedi gweithio dan ddaear, ac wedi chwarae rygbi i Tymbl!! Cyflwynodd Mrs. Mair Lewis fasged o flodau i Mrs. Evelyn Jones, a chafwyd cyfarchion gan y Parchedigion Richard Lewis ac Elwyn Pryse. Dymunir pob bendith iddynt i'r dyfodol.


Dirk Lloyd yn mwynhau ei barti gyda'i chwaer a'i gyfnither o'r Iseldiroedd.

## Cymorth Cristnogol

**Gwasanaeth**

Nos Sul, Mehefin 1af, cynhaliwyd Gwasanaeth cydenwadol dwyieithog yng Nghapel y Gerlan ar thema Cymorth Cristnogol eleni, - Globaleiddio a Newid Hinsawdd.

Croesawyd y nifer dda oedd wedi dod ynghyd gan y Parchedig Wyn Morris, ac ef hefyd roddodd yr anerchiad wedi ei seilio ar y thema, gan bwysleisio mai trwy weithio gyda'n gilydd y medrwn wneud gwahaniaeth, - trwy weddïo, rhoi a gweithredu.

Cymerwyd rhan hefyd gan Pam Gibbs, Joy Cook, Nansi Hayes a Lal Hinks, ynghyd a'r Parchedigion Ronald Williams, David Williams a Richard Lewis. Addurnwyd y Capel a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Eurgain Rowlands. Daeth y casgliad i'r cyfanswm da o £139:20.

## Bore Coffi

Bu'r Bore Coffi a'r Moes a Phryn blynyddol er budd Cymorth Cristnogol yn y Borth yn llwyddiant eleni eto. Newidiwyd y lleoliad tro hwn i Fwyty Ceffyl y Môr. trwy garedigrwydd Margaret a Glynne, a'u haelioni hefyd yn cyfrannu y coffi a'r bisgedi.

Cafwyd y stondinau arferol a chydweithio hwylus gan aelodau'r gwahanol enwadau yn y pentref, a daeth yr arian godwyd ynghyd a chyfraniadau gan unigolion i'r swm o £327.00

## Marwolaeth

A'r *Tincer* ar fin mynd i'r wasg, trist fu clywed am farwolaeth gwraig arbennig iawn, sef Mrs. Margaret Evans, gweddw'r Parchedig D. Gwyn Evans, (cyn Weinidog Capel y Morfa) neu Nan-Nan o fewn y teulu ac i lawer o bobl eraill hefyd, yng Nghartref Nyrsio Plas Cwm Cynfelin, nos Iau, Mehefin 5ed.

Roedd wedi cael byw i oedran teg, ac wedi profi bywyd llawn, a chael y fraint o ddathlu ei phen blwydd yn 100 oed yng nghwmni ei theulu a llu o'i chyfeillion rhyw saith wythnos yn ôl.

Roedd ganddi ddiddordeb ym mhob peth a phob un, ac roedd yna agosatrwydd yn perthyn iddi. Meddai ar y ddawn i wneud pawb i deimlo'n sbesial yn ei chwmni, ac roedd yn fraint i fod wedi cael ei hadnabod.

Cydymdeimlir ag Ina a Geraint a'u teuluoedd yn eu hiraeth.

## Bore Coffi

Bore dydd Llun, 5 Mai, sef Dydd Llun Gŵyl y Banc, fe godwyd £167 er budd Eglwys Sant Mathew o ganlyniad i Fore Coffi ac Arwerthiant Moes a Phryn yn Nhafarn Ceffyl Y Môr. Diolch i Margaret a Glynne am eu croeso ac am ddarparu'r coffi.

## Ffair Elusennau

Erbyn hyn mae Ffeiriau Elusennau'r Haf a'r Gaeaf wedi hen ennill eu plwyf ym mywyd cymdeithasol Y Borth. Wedi'i threfnu gan Scowtiaid y Borth, eu rhieni a'u ffrindiau, fe gynhaliwyd Ffair yr Haf yn Neuadd Gymunedol Y Borth, ddydd Llun 26 Mai, sef ail Ŵyl Y Banc mis Mai. Er gwaethaf, neu efallai oherwydd y tywydd annhymhorol o oer a gwyntog, denwyd llu o ymwelwyr i ffwrdd o'r traeth ac i mewn i'r Neuadd i fwynhau'r gêmau, rafflau, stondinau a lluniaeth oedd ar gael drwy'r dydd. Ymhlith yr elusennau lleol a gynrychiolwyd yno roedd Clwb yr Henoed, Y Lleng Brydeinig, RNLI, Eglwys Sant Mathew, y Scowtiaid, Cybiau ac Afancod, a Chlwb Garddio Machynlleth. Mwynhaodd pawb ddiwrnod buddiol a phleserus.

## Priodas

Ddydd Sadwrn, Mai 31ain, yn Eglwys Sant Matthew, Y Borth, priodwyd Katie, unig ferch Peter a Llywela Bourne, Maramba, y

Graig, a Stuart, mab hynaf Mike a Kim Jones, Maesycrugiau Aberystwyth.

Priodwyd hwy gan y Parchedig Ronald Williams, a'r organydd oedd Michael James.

Yn disgwyl y briodferch a'i thad wrth glwyd yr Eglwys oedd tyrfa niferus o ffrindiau wedi dod i ddymuno'n dda.

Edrychai Katie yn hardd eithriadol mewn ffrog taffeta o liw ifori, gydag addurn o tiwl disglair oedd wedi dod o Awstralia, a chariai dusw o flodau "Gerbera" lliw oren a Liliau "Carla".

Mwynhawyd gwledd briodas yng Ngwesty'r Conrah, lle cafodd y gwesteion eu diddanu gan Fand o Gaerdydd i ddiweddu diwrnod perffaith.

Mae'r par ifanc, a gyfarfu gyntaf pan yn ddisgyblion yn Ysgol Pen-glais, yn treulio eu mis mêl yn Dubai a Mauritius, cyn ymsefydlu yn eu cartref newydd yn Birchgrove, Abertawe, lle mae Katie yn gweithio fel harddwraig (beautician), a Stuart yn beldroediwr proffesiynnol gyda chlwb Pêl-droed Llanelli, a chyn hynny gyda thim Cyntaf Abertawe.

## Dyrchafiadau

Da yw clywed am ddyrchafiadau yng ngyrfaoedd dau o'r brodyr Hayes, sef John a Tim, meibion Yr Athro Des a Mrs Nansi Hayes, Dunstall. Mae'r ddau yn gyn-ddisgyblion Ysgol Rhydypennau ac Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth.

Yn ddiweddar, fe benodwyd John yn Brifathro Ysgol Gyfun Gymraeg Plas Mawr, Caerdydd. Ers rhai blynyddoedd, y mae John wedi bod yn Is-Brifathro yn yr Ysgol, sydd â 800 o ddisgyblion, gan weithredu fel Prifathro Dros Dro yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Graddiodd John mewn Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ac fe ddechreuodd ei yrfa fel athro yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd. Erbyn hyn, bid sicr, bydd John wedi setlo lawr yn gyfforddus yng nghadair Prifathro Plas Mawr ar ôl cychwyn ar ei swydd newydd ar yr ail o Fehefin. Anfonwn bob dymuniad da ato.

Mae gan ei frawd iau, Tim, ddwy yrfa. Graddiodd Tim mewn Bioleg ym Mhrifysgol Caerdydd, gan hyfforddi'n athro ym Mhrifysgol Aberystwyth. Erbyn hyn y mae'n Athro Bioleg ac yn Bennaeth y Chweched Dosbarth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yng Nghaerfyrddin.



Ond y mae hefyd yn seren ar ei gynnedd ym myd dyfarnu ar y maes Rygbi. Ymddangosodd adroddiad am ei brofiadau yn Japan yn rhifyn mis Tachwedd 2007 o'r *Tincer.* Erbyn hyn y mae'n dyfarnu yng Nghynghrair Mangers ac yng ngêmau y Cwpan Heineken. Llynedd, yr oedd yn ddyfarnwr yng Nghwpan y Byd o dan 21 ac, eleni, yr oedd yn rhedeg y lein yng Nghwpan y Chwe Chenedl. Bellach, y mae wedi cael ei benodi fel un o'r deg dyfarnwr ym Mhencampwriaethau'r Byd i'r Rhai Iau o dan nawdd y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol. Cynhelir y Pencampwriaethau yng Nghymru yn ystod haf 2008. Dyma gyfle mawr i Tim ac fe ddymunwn bob llwyddiant iddo.

## Marwolaeth

**Mrs Sheila Hennighan**

Gyda thristwch mawr y derbyniwyd y newyddion am farwolaeth Mrs Sheila Hennighan, Tre'r-ddôl. Bu farw yn dawel yn Ysbyty Bron-glais, ddydd Sul, 1 Mehefin yn 72 oed.

Hyd at y llynedd ac am flynyddoedd lawer, fe gadwodd Sheila siop lysiau a ffrwythau yn yr hen "Midland Stores", y Stryd Fawr, Y Borth. Daeth yn ffrind mawr i'w chwsmeriaid dros y blynyddoedd, gan fod bob amser yn siriol, yn barod am sgwrs fach ac yn hael ei chefnogaeth o elusennau lleol ac o bopeth oedd yn mynd ymlaen yn y pentref.

Mewn teyrnged teilwng iddi, yr oedd Eglwys Llangynfelyn yn llawn i'r ymylon ar gyfer yr angladd, ddydd Gwener, 6 Mehefin. Gofalwyd am y gwasanaeth gan Y Parchg Geraint ap Iorwerth.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at ei gŵr, Llywelyn, ac at yr holl deulu yn eu profedigaeth.

## Sefydliad y Merched

Margaret Griffiths oedd y Cadeirydd yng nghyfarfod SYM Y Borth yn y Neuadd Gymunedol, nos Fercher, 21 Mai.

Y siaradwraig wadd oedd Eunice Thomas, Ceinewydd, sy'n byw mewn tŷ oedd yn gartref i Dylan Thomas am flwyddyn bron, a lle, mae'n debyg, y daeth o hyd i'r ysbrydoliaeth a esgorodd ar rai o'r cymeriadau yn *Under Milk Wood.* Siaradodd Eunice am yrfa a llythyrau Dylan ac fe ddiolchwyd iddi gan Ann Newby.

Rhoddwyd nos Fercher, 4 Mehefin, yn nwylo diogel Pat Pearson a Pauline Rickaby. Darparodd y ddwy gwis personol a difyr a achosodd gryn hwyl ymhlith yr aelodau. Diolchwyd iddynt gan y Cadeirydd, Margaret Hudson.

## Clwb yr Henoed

Cyfarfu Clwb yr Henoed yn y Neuadd Gymunedol brynhawn dydd Iau, 22 Mai. Y Cadeirydd oedd Celia Le Goode. Difyrrwyd yr aelodau gan Mandy Martin a'i mam, Jean Ward, mewn rhaglen amrywiol o ganeuon i gyfeiliant y gitâr. Ymunodd pawb yn y canu o dro i dro ac fe ddiolchwyd i Mandy a Jean gan Betty Horton.

Taflwyd cysgod dros y cyfarfod ddydd Iau, 5 Mehefin, gan y newyddion trist am farwolaeth Peter Gregory, oedd wedi marw yn ei gartref heb fwy na dwy awr ynghynt. Cadwyd munud o ddistawrwydd er cof amdano ac fe mynegwyd ein cydymdeimlad dwysaf â'i wraig, Betty, a'r teulu gan Celia Le Goode, cadeirydd y prynhawn. Croesawyd, wedyn, Seindorf Bres Plant Iau Ysgol Pen-glais, o dan eu harweinydd Mr Alan Phillips, oedd wedi paratoi ar ein cyfer raglen o ganeuon poblogaidd, emynau a darnau cyngerdd. Diolchwyd i'r plant talentog gan Celia Le Goode.


Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
Ceredigion 2010
Pwyllgor Apêl Llandre, Dol-y-bont a'r Borth

TAITH GERDDED NODDEDIG

Dydd Gwener
**Medi 5ed**
GLANLERI
Yn cychwyn am 5.30
(tua 1 awr) I ddilyn - BARBECIW

Dewch i gerdded, i fwyta ac i gefnogi

Ffurflenni ar gael gan
Gwenda ac Eric, Tre Medd
Rhodri a Cêt, Glanfred
Carwen, Dyffryn Cain
Wynne Melville, Y Berllan

**23 Ionawr 09**
CINIO
Clwb Golff Y Borth ac Ynyslas
Adloniant: Tecwyn Ifan

Mae'r cyfle yn agored o hyd i'r rhai sy'n dymuno cyfrannu

Rhodd Cymorth (e.e. 5. neu 10. y mis).
Ffurflenni ar gael.
ER MWYN PLANT A IEUENCTID CYMRU




Llongyfarchiadau cynnes i Mr Aran Morris, Bel-Air, a anrhydeddwyd, yn gynharach eleni, gyda dyfarniad yr MBE am wasanaethau i ddiogelwch ar y môr. Derbyniodd Aran ei Fedal wrth law y Tywysog Charles, Tywysog Cymru, ym Mhlas Buckingham, ddydd Gwener, y 16eg o Fai. Yn y llun fe welir Aran a'i wraig, Eileen, ar ôl y seremoni.

# CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

**Canlyniadau**

**Medal Misol**
*Mawrth*
1af Zach Galliford (Y Borth) 77:5:72
2il Angharad Basnett (Bont-goch) 99:20:79
3ydd Luke Williams (Bow Street) 101:26:75
Gross gorau: Matthew Evans (Capel Bangor)

*Ebrill*
1af Daniel Basnett (Bont-goch) 81:13:68
2il Angharad Basnett (Bont-goch) 92:20:72
3ydd Luke Williams (Bow Street) 101:26:75
Gross gorau: Zach Galliford (Y Borth)

*Mai*
1af Gareth Davies (Penrhyn-coch) 77:9:68
2il Ben Jones-Hughes (Tal-y-bont) 105:37:68
3ydd Ioan Lewis (Bow Street) 92:23:69
Gross gorau: Zach Galliford (Y Borth)

**Pencampwriaeth y Gwanwyn 1**
1af Steffan Richards (Y Borth) 75:10:65
2il Daniel Basnett (Bont-goch) 84:13:71
3ydd Ben Slater (Y Borth) 111:40:71

**Pencampwriaeth y Gwanwyn 2**
1af Luke Williams (Bow Street) –3 (9 gefn)
2il Zach Galliford (Y Borth) –3 (9 gefn)
3ydd Angharad Basnett (Bont-goch) –3

**Pencampwriaeth y Gwanwyn 3**
1af Jac Morris (Y Borth) 83:18:65
2il Andrew Gittins (Llanbadarn) 100:32:68
3ydd Matthew Evans (Capel Bangor) 75:4:71

**Pencampwriaeth y Gwanwyn 4**
1af Zach Galliford (Y Borth) 42 pwynt
2il Rhodri ap Dafydd (Goginan) 35 pwynt (9 gefn)
3ydd Steffan Richards (Y Borth) 35 pwynt

**Pencampwriaeth y Gwanwyn 5**
1af Zach Galliford (Y Borth) 73:4:69
2il Luke Williams (Bow Street) 99:26:73
3ydd Rhodri ap Dafydd (Goginan) 91:17:74

**Canlyniadau Terfynol**
1af Zach Galliford (Y Borth) 35 pwynt
2il Luke Williams (Bow Street) 32 pwynt
3ydd Steffan Richards (Y Borth) 31 pwynt

**Sul 6ed Ebrill Cystadleuaeth** Stableford
1af Angharad Basnett (Bont-goch) 37 pwynt
2il Luke Williams (Bow Street) 32 pwynt
3ydd Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) 29 pwynt

**Sul 20fed Ebrill Cystadleuaeth** Bogey
1af Ioan Lewis (Bow Street) +2
2il Daniel Basnett (Bont-goch) +1
3ydd Luke Williams (Bow Street) cydradd

**Llun 5ed Mai Cystadleuaeth** Bogey
1af Mathew Holmes (Y Borth) +5
2il Ryan Doyle (Y Borth) +2
3ydd Andrew Gittins (Llanbadarn) cydradd

**Sul 18fed Mai Cystadleuaeth** Stableford
1af Zach Galliford (Y Borth) 38 pwynt
2il Daniel Basnett (Bont-goch) 37 pwynt
3ydd Rhodri ap Dafydd (Goginan) 35 pwynt

**Cystadleuaeth Rowlands Brynllys**

Diolch i nawdd hael Gareth a Rachel Rowlands, Brynllys, Dôl-y-bont cynhaliwyd cystadleuaeth yn agored i holl gategorïau aelodaeth y Clwb ar dri gwahanol achlysur yn ystod mis Mawrth.

**Canlyniadau Cystadleuaeth 1**
Dynion: 1af Luke Williams (Bow Street); 2il Mr Howell Thomas; 3ydd Zach Galliford (Y Borth)
Merched: 1af Angharad Basnett (Bont-goch); 2il Mrs Margaret Roberts; 3ydd Mrs Kath Howard

**Cystadleuaeth 2**
Dynion: 1af Mr Owen Jenkins; 2il Mr D S Jackson; 3ydd Mr B Gardner
Merched: 1af Angharad Basnett; 2il Ms Bev Watson; 3ydd Mrs Kath Howard

**Cystadleuaeth 3**
Dynion: 1af Mr Huw Davies; 2il Mr Barry Williams; 3ydd Zach Galliford
Merched: 1af Mrs Karen Evans; 2il Mrs Kath Howard; 3ydd Ms Bev Watson

Llongyfarchiadau i Mr Owen Jenkins ar lwyddo i gael twll mewn un ar y 6ed twll yn ystod y gystadleuaeth yma.

**Canlyniadau Terfynol dros y 3 rownd**

Dynion: Zach Galliford (Y Borth)
Merched: Angharad Basnett (Bont-goch)

Da iawn yr Adran Iau, a diolch yn fawr i Rachel a Gareth Rowlands am eu cefnogaeth i noddi'r gystadleuaeth.


Dyma Gwion ap Dafydd (Goginan) a lwyddodd i sgorio twll mewn un ar dwll 14 yn ystod cystadleuaeth Medal Fisol Mis Mai. Da iawn ti Gwion!


Pob blwyddyn mae'r dynion, merched a'r adran iau yn cystadlu am y Wooldridge Salver. Mae cystadlu brwd oherwydd nid yw'r dynion yn hoffi colli i'r merched ac yn arbennig i'r Adran Iau!!! Serch hynny llwyddodd yr Adran Iau i sicrhau'r cwpan a enillwyd yn 2007 eleni eto gyda'r dynion yn ail a'r merched yn drydydd.


Yn y llun gwelir yr enillwyr gyda'r noddwyr: Rhes gefn: Dylan Raw-Rees (Capten); Rachel Rowlands; Karen Evans (Is-gapten y Merched); Owen Jenkins, Huw Davies, Gareth Rowlands; Rhes flaen: Zach Galliford, Luke Williams, Angharad Basnett.

# LLANDRE

## Treftadaeth Llandre

Daeth Vernon Jones o Gaerwen, Bow Street i'n hannerch ar y testun "Llenyddiaeth y Beddau", nos Iau, 29 Mai. Bu ef a'i briod Dilys yn un o'r tîm a fu yn casglu manylion oddi ar y beddau yn Llanfihangel Genau'r-glyn a ffrwyth y gwaith hynny oedd sail i ran fwyaf o'i anerchiad i'r cynulliad niferus a ddaeth i wrando arno.

Cododd destun i'w sylwadau o lyfr Byron Rogers *The man who went into the West*, sef hanes bywyd R S Thomas. Ar ynys Skomer, gofynnodd yr awdur R M Lockley iddo "Do you have no publications there?" (yng Nghymru), "Yes, we call them graveyards". A dyna fu sail i lawer o sylwadau y siaradwr, sef bod y cerrig beddau yn cyhoeddi cyfoeth o wybodaeth drwy arysgrifau, boed enwau pobl, lleoedd neu farddoniaeth mewn gwahanol ffurfiau, hanes gwaith ein cyndadau, ac adnodau o'r Beibl yn cyhoeddi naws crefyddol y cyfnodau.

Tynnodd sylw at y gwahanol mathau o englynion a geir ar hyd a lled mynwentydd y wlad ac awgrymodd mai'r rheswm bod yr englyn yn ffurf poblogaidd ar gerrig beddau oedd bod ein cyndadau wedi clywed am Englynion y Beddau yn hanes llenyddiaeth Cymru, a phan ddaeth cerrig beddau yn gyffredin mewn mynwentydd, cafwyd bod lle bellach i osod "englyn" i goffau eu teuluoedd ar y meini.

Adroddodd nifer o englynion a barddoniaeth ac ambell hanesyn oedd yn gydnaws a'r farddoniaeth gan gyfeirio yn fynych at fynwent Genau'r-glyn gan wneud ambell sylw diddorol yn deillio o'r wybodaeth a gynhaeafodd oddi yno.

Aeth gam ymhellach i sôn am waith beirdd oedd wedi dychmygu am bersonau yn siarad o'u beddau, megis cerdd Gwladys Rhys (W J Gruffydd), a Lleisiau'r Fynwent gan yr un awdur. Soniodd hefyd am gerrig beddau y bu rhaid eu newid oherwydd pwysau ar y teuluoedd nad oedd yn hapus ar linellau a dorrwyd ar y cerrig, megis ar fedd William Gruffydd, yr Hen Barc. Y llinellau tramgwyddus oedd "Mae rhywbeth bach yn poeni pawb/Nid yw yn nef ym mhobman", sy'n cychwyn y gân "Defaid William Morgan".

Newidiwyd y gair cyrch ym meddargraff Ceiriog iddo ef ei hun, sef "Carodd fir/carodd fyw'n naturiol" i "carodd feirdd/carodd fyw'n..." Nid oedd y Methodistiaid lleol yn hapus gyda'r gwreiddiol! Ni chaniataodd yr awdurdodau eglwysig i'r llinell "I told you I was ill" i fynd ar garreg fedd Spike Milligan chwaith.

Gorffennodd drwy adrodd penillion i Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn a gyfansoddwyd gan y Parchg Isaac Williams, gŵr a anwyd yn Cwmcynfelyn, Clarach, ac a fu yn gydymaith i Newman, Keble a Gladstone yn Rhydychen. Mae'n debyg bod rhai o deulu Isaac Williams wedi eu claddu yno, a hynny cyn codi eglwys Llangorwen ym 1841.

Fe fydd 'na groeso i'r aelodau yn y cyfarfod nesaf a fydd yng nghartref Alan Millichamp i weld Rheilffordd Fach Lôn Glanfrêd ar y 26ain o Fis Mehefin, yn yr hwyr.

Yna ar yr 31ain o Orffennaf fe'n gwahoddir i Ganolfan yr Urdd yn Llangrannog yng nghwmni Wynne Melville Jones.



## Priodas yn Rehoboth

Ar ddydd Sadwrn, Ebrill y 5ed yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, priodwyd Gwenan Angharad Jones, merch ieuengaf Dilwyn a Carys Jones, Tal-y-bont ac Aled Rhys Jones, mab hynaf Sylvia a'r diweddar Rhodri Prys Jones, Waunfawr, Sir Gaernarfon. Mae Gwenan yn wyres i'r diweddar William Llewelyn a Marion Edwards, Bron Rhiwel, Llandre. Pob dymuniad da i'r ddau.

## Te Bethlehem

Nos Wener, Mehefin 6ed roedd hi'n noson Te Bethlehem, ac fel arfer roedd gwledd o fwyd wedi ei pharatoi dan gyfarwyddyd Gwenda James, arolygydd yr Ysgol Sul. Agorwyd y noson drwy weddi gan y gweinidog, y Parchg Wyn Rh, Morris. Pan oedd y bwyd wedi'i glirio a'r llestri wedi'u golchi tro ein gŵr gwadd oedd hi i roi ei anerchiad. Wrth gyflwyno Gwyn Jones, Llys Maelgwyn, soniodd Gaenor Hall am ei ddiddordeb dihysbydd mewn pobl, ei gymwynasgarwch a'i ddyfalgarwch yn trefnu casgliad Cymorth Cristnogol yn yr ardal bob blwyddyn; cyfeiriodd hefyd at ei ddarllengarwch a'i wybodaeth eang am bynciau'n amrywio o wyddoniaeth a hanes at athroniaeth a barddoniaeth Saesneg.

Yn ystod araith eang-ei-chwmpawd, yn llawn gwybodaeth a hiwmor, cawsom ein cyfareddu gan fân hanesion a gwybodaeth sylweddol am Abraham Lincoln, Oliver Cromwell, yr Anghydffurfwyr Cynnar, a chyfundrefn amaethyddol y mân rydd-ddeiliad, ymhlith pethau eraill, a'r cyfan yn tarddu o'i gof - gydag ambell i gip ar y nodiadau a gadwai yn ei boced! Ochr yn ochr â hyn i gyd cawsom gyfle i ddod i nabod y siaradwr ei hun yn well, dyn a fu am gyfnod yn 'genedl-ddyn' ymysg 'theolôgs' coleg Bala-Bangor, un sy'n nabod ffermwyr a ffermydd ledled Cymru, sy'n un o hoelion wyth Cymdeithas Edward Llwyd, sy'n feddyliwr annibynnol, cadarn ei farn, ac sy'n byw yn ein plith ers hanner can mlynedd,

Wrth ddiolch iddo cyfeiriodd y gweinidog at Gwyn Jones fel 'Bonheddwr o Werinwr', teitl oedd yn crynhoi i'r dim yr argraff roedd wedi ei gwneud ar ei gynulleidfa ym Methlehem.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Ann Jones, priod y gŵr gwadd, gan Elina Davies.

Diolchwyd hefyd i Nest Davies a Megan Davies am osod y blodau ac i Gwenda James am fod yn gyfrifol am yr holl drefniadau.

## Croeso

Croeso i Hilary Wood sydd wedi symud i Gelli Fach, Clos y Ceiliog. Gobeithio bydd yn hapus yn ein plith

## Gwellhad

Dymunwn wellhad buan i Caroline Fields, Linton, Lôn Glanfrêd sydd wedi derbyn llawdriniaeth mewn Ysbyty yng Nghaerdydd.

Croeso adre i Morfudd Clark, Bronceiro, ar ôl derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Yr ydym yn dymuno llwyr wellhad.

## Eglwys San Mihangel Llandre

Rydym yn llawenhau wrth ddeall fod y Ficer Y Parchg Brian Thomas yn ôl gartref ar ôl derbyn llawfeddygaeth ddargyfeiriol pumplyg y galon yn Ysbyty Treforus. Dymuniad pawb yw iddo gael adferiad llwyr

Yn y cyfamser fe fydd y cyn-archddiacon, yr Hybarch Hywel Jones yn cymryd gofal o'r tair Eglwys - Llandre, Llangorwen a Thal-y-bont yn ystod ei adferiad.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Dorothy Bell, Llwyn Onn, a'r teulu, ar farwolaeth ei gŵr, Derek, a fu farw yn sydyn mis diwethaf.



Trefor Jones, Llandre, Llywydd Etholedig Cymdeithas Gwartheg Duon Cymreig *Llun: Anthony Mosley*

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

Madog
2.00
Gorffennaf
6
13 D Harding Rees
20 Bugail
27

Awst
3
10 Huw Roderick
17
24 Lewis Wyn Daniel
31 Arwyn Pierce

Medi
7 Tecwyn Jones
14 Bugail
21 Bugail
28 John Pinion Jones

### Croeso

Croeso i Manon Foster Evans a Geraint Phillips a'r meibion Sion a Iestyn sydd wedi dod i fyw am gyfnod byr dros yr haf o Aberystwyth i Llwyn Hudol, Cefn-llwyd.

### Gwellhad buan

Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Eirlys Reeve (Ysgubor Newydd gynt) sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Watford, Llundain. Mae'n tanysgrifio ac yn ddarllenydd cyson o'r Tincer

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Cledan a Gwen Jones, Tŷ Mawr a Mr a Mrs M Butler, Foel Gastell, Caerfyrddin, o golli perthynas yn ddiweddar.



### Priodas

Ar ddydd Sadwrn, Mai'r 17eg, priodwyd Prys, mab ieuengaf Thomas ac Elwyna Davies, Fferm Tyncwm, Capel Dewi â Heledd, merch Howard a Carol Mitchell, Cae Glas, Llanllwni. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Carmel, Llanilar ac fe'i gweinyddwyd gan y Parchedig Nicholas Bee. Cynhaliwyd y brecwast priodas yn Nhyglyn Aeron. Bydd y ddau ohonynt yn ymgartrefu yng Nghoedllys, Llanilar maes o law. Bu Heledd a'r teulu yn byw yng Nghapel Bangor yn yr 80'au cyn symud i Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, lle bu ei rhieni'n byw tan iddynt symud i Lanllwni fis Chwefror y llynedd. Dymuniadau gorau i Heledd a Prys.




# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDIOL

### Diolch

Dymuna Dylan a Eirian Jenkins, Tyncastell, Pontarfynach, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a gawsom ar achlysur genedigaeth ein merch, Elain Grug.

### Pen blwydd arbennig

Dymniadau gorau i John Lewis, Dolgamlyn, a ddathlodd ben blwydd arbennig ym mis Mai.

### Brysiwch wella

Cafodd Ann Ellis, Hywelfan, anffawd yn y dref a bu mor anffodus a thorri ei braich ond mae yn gwella yn foddhaol iawn erbyn hyn.

### Urdd y Benywod

Gorffennwyd y tymor eleni eto gyda trip i Amgueddfa y Dref. Cawsom sgwrs ddifyr iawn gan Jezz Danks ac yna buom yn crwydro o amgylch yr Amgueddfa. Cawsom bryd o fwyd yn y Clwb Golff yng Nghapel Bangor. Diolchodd Beti Daniel yn fawr iawn i Amanda Burton ac Ann Ellis am drefnu y noson ac i bawb am eu cydweithrediad yn ysod y gaeaf, yna trosglwyddodd yr awenau i Nancy Evans, Ty-poeth. Edrychwn ymlaen yn awr am y tymor nesaf.

### Gyrwraig newydd!

Llongyfarchiadai i Ellie Doidge, Caegynon, ar basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar. Cymer ofal!

### Croeso

Croeso i Jenny Hall i fyw i Llainfach, Aber-ffrwd. Ganwyd Jenny yn Aberystwyth ac mae wedi penderfynu dcyhwelyd i fyw i'r ardal ar ôl treulio nifer o flynyddoedd yn Lloegr.

### Genedigaeth

Croeso arbennig iawn i Gwenan Mai, merch fach gyntaf i Gareth ac Alice, Tŷ Capel, Aber-ffrwd.

Y TINCER

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 15 Mai pa bryd y cynhaliwyd y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. John Evans. Estynnodd groeso i'r Cynghorydd Paul Hinge, sef Cynghorydd Sir a etholwyd yn aelod dros Gymuned Tirymynach yn ddiweddar. Ni ddaeth neb o drethdalwyr y Gymuned i'r cyfarfod.

Yn ei adroddiad am y flwyddyn, dywedodd y cadeirydd y Cyng. John Evans mai un o brif ddigwyddiadau'r flwyddyn yn hanes y Cyngor oedd ymddeoliad Mrs Mary Thomas fel Clerc y Cyngor wedi dros ugain mlynedd o wasanaeth. Roedd y Cyngor eisoes wedi cydnabod gwasanaeth clodwiw Mrs Thomas i'r ardal ac roedd hi'n addas i wneud hynny yn y cyfarfod blynyddol hefyd. Priodol oedd hi hefyd i gyfeirio at ymddeoliad dau o'r Cynghorwyr sef Mrs Shân Hayward a Mr Gwynant Edwards, y ddau wedi rhoi blynyddoedd helaeth o wasanaeth.

Wrth ddiolch i bawb am bob cymorth a chydweithrediad yn ystod y flwyddyn, ac wrth groesawu'r clerc newydd, y Parchg Richard Lewis i'w swydd, diolchodd hefyd yn gynnes i Mr Penri James y cyn-Gynghorydd Sir, am ei ffyddlondeb i gyfarfodydd Tirymynach ar hyd y blynyddoedd ac am ei gymorth parod, a'i ymroddiad llwyr bob amser.

Ail etholwyd y Cyng. John Evans yn gadeirydd am y flwyddyn gyfredol, a'r Cyng. Owain Morgan yn is-gadeirydd. Etholwyd y canlynol ar wahanol bwyllgorau yn y Gymuned. Pwyllgor Cae Chwarae Rhydypennau: Cyng. Harri Petche; Neuadd Rhydypennau: Cyng. Heulwen Morgan; Henoed Llandre a Bow Street: Cyng. Heulwen Morgan; Cyfeillion Cartref Tregerddan: Cyng. John Evans; Pwyllgor Un Llais Cymru: Cyng. Owain Morgan; Llywodraethwyr Ysgol Rhydypennau: Cyng. Gwynant Phillips

Derbyniwyd y Fantolen Ariannol fel un gywir ynghyd â chofnodion cyfarfod blynyddol 2007.

Wedi cau'r cyfarfod uchod aed ymlaen i ddelio â materion



Vernon Jones yn cyflwyno rhodd i Mrs Mary Thomas mewn cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Tirymynach i gydnabod ei gwasanaeth fel Clerc am dros ugain mlynedd.

mis Mai o'r Cyngor. Yma eto diolchwyd i Mrs Shân Hayward a Mr Gwynant Edwards sydd wedi ymddeoli fel cynghorwyr, am eu gwaith cydwybodol ar y Cyngor am nifer o flynyddoedd. Hefyd penderfynwyd anfon llythyr at Mr Penri James yn gwerthfawrogi ei waith caled dros y gymuned ac am bob cymorth i'r Cyngor dros dymor hir.

Roedd nifer o eitemau yn codi o'r cofnodion, rhai heb symud ymlaen ers deufis bellach. Doedd dim ateb wedi dod parthed y goleuadau yn Stryd Blaenddol a mynedfa Cartref Tregerddan, na gwelliannau ffordd Bow Street - Clarach. Nid oedd unrhyw ymateb i'r ymholiad am gynllun gwella'r ffordd fawr Bow Street / Dolau / Maesnewydd, penderfynwyd gofyn i'r Aelod Seneddol i ymyrryd yn y mater hwn. Parhau heb ei osod y mae arwydd ar ben ucha'r Lôn Groes, ond deallir bod swyddog wedi bod i olwg yr arwydd presennol, a dweud bod y ddau bolyn yn dal yn ddiogel.

Yn dilyn etholiad 1af Mai, hysbysir bod lle i ddau gynghorydd eto ar Gyngor Tirymynach. Penderfynir ar y drefn o gyfethol yn y cyfarfod nesaf.

Cynllun Datblygu Lleol - Llangorwen. Mae'r sefyllfa ynglŷn â'r darn tir a ddynodwyd ar gyfer man chwarae yn dal i beri ansicrwydd, ond gobeithir dod i ddealltwriaeth gyda'r perchennog, Mr S Crane yn fuan.

Mae Arriva yn hysbysu'r Cyngor y byddant "yn meddwl" am fannau aros ger Afallen Deg, yn dilyn cwynion bod yr henoed yn gorfod cerdded i lawr i Dregerddan er mwyn dal y bws i Aberystwyth.

Cynllunio. Newid defnydd cegin ac ystafell fyw preswyl i fusnes bwydydd i fwyta allan yn Pendre, Pen-y-garn - wedi ei ganiatáu. Newid defnydd Sied yn Bryncarnedd - wedi caniatáu. Ceisiadau newydd: Gosod ceblau ffeibr optig o dan y ddaear rhwng Campws Pen-glais a Champws IGER yn Gogerddan - dim gwrthwynebiad.

Derbyniwyd nifer o ohebiaethau oddi wrth wahanol asiantaethau yn cynnwys Un Llais Cymru yn cyhoeddi'r Cyfarfod Blynyddol yn Llandrindod. Y Clerc i gynrychioli'r Cyngor.

Derbyniwyd awgrym bod angen reflectors ar y rheiliau ger Ysgol Rhydypennau yn dilyn cwynion bod cerbydau yn dod ar eu gwarthaf yn sydyn yn y nos. Mae drain hefyd yn tyfu dros seti mewn nifer o fannau yn y gymuned, ond yn ôl y Cyngor Sir rhaid eu gadael hyd nes bydd yr adar wedi gorffen nythu. Mae'n amlwg yng ngolwg rhywrai bod adar yn bwysicach na pherson yn niweidio ei lygad, ac efallai golli golwg. Ac eto, go brin fod adar yn nythu ar ymyl y ffordd fawr heddiw!

Addawodd y Cynghorydd Sir, y Cyng. Paul Hinge y bydd ef yn gwneud ei orau i ymgodymu a phroblemau yn y gymuned, ac ymhen pedair blynedd byddant yn gwybod "That Hinge is my name". Y cyfarfod nesaf ar 26 Mehefin.

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes gan
Lewis a Lorraine
Ffôn 880650

Mynach Handyman
(D.M.Williams)
Torri Porfa, Gwasanaeth Garddio, Peintio, Teilio, DIY a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gytaf ar
01970 881090 07792457816

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion.
13 Stryd Y Bont, Aberystwyth
01970 626200

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

# Cyngor Cymdeithas Melindwr

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, 17eg Ebrill 2008, yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor am 7.30p.m.

Cyfarfu'r Cyngor, gydag wyth o gynghorwyr yn bresennol, gan gadeiryddiaeth Elizabeth Collison a'r clerc a Mr Henry Drake, Rheolwr Rhanbarthol Cymru a'r Gorllewin o E.ON.

Cofnodion: Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion mis Mawrth 2008.

**MATERION YN CODI**

Llwybrau E.ON: Cyflwynodd Mr Henry Drake yr hyn sy'n digwydd yn E.ON ar hyn o bryd ac mae'n ymwybodol o'r llwybrau ac maent yn delio â hwy. Yr unig broblem yw mai ychydig o'r tir maent yn berchen arno. Nodwyd wrth Mr Drake bod angen cywiro'r fainc ar lwybr E.ON. Nododd Mr Drake nad oes dim 'Funday' yn digwydd eleni. Ar hyn o bryd maent yn newid gatiau/ffens o Aber-ffrwd i Gwmrheidol i fod yn fwy addas i weddu gyda'r amgylchedd. Diolchodd y Cynghorydd Elizabeth Collison i Mr Henry Drake am ymweld â'r Cyngor.

Person Gwybodaeth: Adroddodd Cadeirydd y Cyngor Cymuned bod gwaith da iawn wedi cael ei gwblhau gyda'r Cynghorydd Wynne Jones

Ffordd Blaengeuffordd i Oginan: Adroddodd y clerc nad oedd ymateb wedi dod o'r Cyngor Sir.

Glanhau Cabanau Bws: Adroddodd y clerc bod Maureen Dodd wedi bod mewn cysylltiad ond mae angen i'r clerc i ofyn pwy sy'n gyfrifol am archebu paent ac ati.

Arwyddion Cyflymder: Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn ymateb oddi wrth Gygor Sir Ceredigion a phenderfynwyd y byddai'r clerc yn cysylltu gyda Rachel Thomas i estyn 30mya cyn y farchnad yng Ngelli Angharad.

Parc Busnes Capel Bangor: Adroddodd y clerc bod cyfarfod cyhoeddus yn mynd i ddigwydd ar yr ôl etholiad ond does dim dyddiad pendant eto.

Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion: Adroddodd y clerc bod cyfnod ymgynghori yn gorffen ar 2il Fai 2008. Penderfynwyd rhoi safleoedd posibl fel mannau i'w datblygu yn yr ardal.

Pant Mawr- Aber-ffrwd: Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn ymateb o'r Cyngor Sir a bydd arwyddion yn cael ei gosod yn y dyfodol agos.

Cyfarfod Swyddfa Bost: Adroddodd y Cynghorydd Brython Davies ar gyfarfod Swyddfa Bost yn Aberaeron a fynychodd yn ddiweddar. Nododd y Cynghorydd Sir y byddai fan y Swyddfa Bost yn gorffen ymweld â phentref Capel Bangor yng Ngorffennaf 2008 ond gobeithio y bydd rhyw gytundeb gyda'r neuadd ynglÐn â lleoli'r Swyddfa Bost yn y neuadd.

Ffordd Pisgah: Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn ymateb o'r Cyngor Sir.

Cyflwynwyd canlyniadau ceisiadau cynllunio canlynol o'r Cyngor Sir:

· A070565 Codi annedd yn Nha n y Coed, Aber-ffrwd.

· A080149 Gwaith trosi ac adnewyddu i'r llofft i ffurfio 2 stafell wely yng Ngolygfa'r Cwm, Goginan, Aberystwyth.

Awdurdodwyd talu Shaw & Sons Ltd £198.27 am lyfr cofnodion a llyfr cofnodion ariannol.

**Ceisiadau Ariannol 2007/2008:**

· Penderfynwyd cyfrannu £200 yr un i'r canlynol: Papur Bro Y Tincer; Cronfa Adeiladau Capel M.C. Pen-llwyn; Sioe Capel Bangor a'r Cylch; Neuadd Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor; Neuadd Bentref Pen-llwyn; Ysgol Gynradd Penllwyn, Merched y Wawr Pen-llwyn.

· Penderfynwyd cyfrannu £50.00 yr un i'r canlynol: Clybiau Ffermwyr Ifanc Ceredigion; Sefydliad Ymchwil y Galon Cangen Aberystwyth a'r Cylch; Cruse Ceredigion – cymorth i'r galarus; Gofal Marie Curie.

· Penderfynwyd cyfrannu £50.00 yr un i'r canlynol: Sefydliad Aren Cymru; Childline Cymru; Nyrsys Macmillan ac £250 i Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd Sir Ceredigion 2010.

Tynnwyd sylw at y materion canlynol y dylid rhoi sylw iddynt a/neu dwyn sylw'r awdurdodau perthnasol:

Golau ar riw Bryn Melindwr ymlaen trwy'r nos a lamp Cwmbrwyno ddim yn gweithio.

Mae coeden Llwynteg angen ei thorri achos mae'n dal yn anodd gweld allan i'r ffordd fawr.

Dŵr ar arwyneb ffordd ar bwys Tŷ'r Gof yng Nghwmrheidol.

Diolchodd y clerc i'r Cynghorydd J.Eilir Morris am ei wasanaeth i'r Cyngor Cymuned dros y blynyddoedd. Fe ategwyd hyn gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned ynghyd â'r Cynghorydd Sir Fred Williams.

**CYFARFOD BLYNYDDOL**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymdeithas Melindwr yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor ar y 15fed Mai

Yn bresennol roedd Y Cynghorwyr Bethan Bebb, Wynne Jones, Arnold Evans, Gareth Daniel, Aled Lewis, Ceredig Williams, Richard Edwards, Dafydd Fryer, Rhodri Davies (Cyngor Ceredigion) a'r Clerc.. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth: Y Cynghorwyr Elizabeth Collison a Brython Davies.

Doedd dim modd darparu cyfleuesterau cyfieithu am resymau personol y cyfieithydd.

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2007 y Cyngor.

**Adroddiadau**

i.Cadeirydd y Cyngor Darllenwyd adroddiad y Cadeirydd - Elizabeth Collison- gan y Cynghorydd Dafydd Fryer.

Yn ystod y flwyddyn sydd wedi pasio mae Cyngor Cymuned Melindwr wedi llwyddo yn y meysydd canlynol:

· Fe wellodd y cyfathrebu ac amserlen ein cyfarfodydd i gyd-fynd a cheisiadau cynllunio sy'n digwydd yn ystod mis Awst a Rhagfyr.

· Fe wellodd y cyfathrebu gyda swyddogion y Cyngor Sir ac asiantaethau eraill e.e. Asiantaeth Cefnffyrdd, ac mae'r A44 o Oginan i Flaengeuffordd wedi derbyn arwyneb newydd i'r ffordd.

· Gwellodd cyfathrebu gyda'r etholwyr trwy gyhoeddi enwau'r cynghorwyr Cymuned ar wefan newydd cymuned Capel Bangor -cyfeiriad http:// capelbangor.pumlumon.org.uk

· Gweithiwyd gyda swyddog rhanbarthol o Un Llais Cymru, fe fynychwyd cyfarfodydd chwarterol o Un Llais Cymru. Derbyniwyd cyngor ar hyfforddiant i'r clerc, swydd ddisgrifiad i'r clerc a chafwyd eglurhad ar broses o gwyno i'r Ombwdsmon.

· Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r swyddog heddlu cymunedol a chymerwyd rhan yn yr ymgynghoriad ar flaenoriaethau heddlu yn yr ardal.

· Gofynnwyd cwestiynau i'r swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am gais cynllunio arfaethedig parc busnes. Dangoswyd ein pryderon am yr effaith ar yr amgylchedd ar yr afon Rheidol. Fe ofynnwyd iddynt beth fydd manteision i'r ardal o gael cais parc busnes i'r gymuned.

· Gwrandawyd ar y gwrthwynebiadau i'r cais cynllunio arfaethedig am barc busnes oddi wrth etholwyr yr ardal.

· Gofynnwyd i'r cyngor Sir i ddileu penderfyniad ar y cais cynllunio uchod hyd nes bod cyfarfod safle a chyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal rhywbryd ar ôl 1af Fai 2008.

· Cyflwynwyd safleoedd posib i'w hystyried ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007-2022 sef safleoedd yng Ngoginan a Chapel Bangor ar gyfer tai, posibiliad ar gyfer ysgol ardal a maes chwarae, a chynllun rhwystro gorlif.

· Dechreuwyd casglu gwastraff ailgylchu yn Blaengeuffordd ym mis Ebrill 2008.

· Bu i E.ON wella y llwybr cyhoeddus o amgylch llyn Cwmrheidol.

· Bwriedir cwblhau gwaith angenrheidiol ar gabanau bysiau gan ddefnyddio cynllun drwgweithwyr yn y gymuned i ddigwydd yn ystod Mai 2008.

Gwaith sydd angen sylw pellach yn ystod 2008-2009:

· Paratoi cynllun datblygu cymunedol ar ôl ymgynghori gyda'r etholwyr.

· Gwella'r cyfathrebu gyda'r etholwyr trwy ddefnyddio'r wefan i gyhoeddi agenda cyngor a rhoi cofnodion cyngor arno hefyd.

· Angen gwella'r mesurau diogelwch y ffordd ym mhentrefi Pisgah, Pant-y-crug A4120, a Goginan, Capel Bangor a Blaengeuffordd ar yr A44. Mae angen gosod rhwystrau a gosod arwyneb newydd o Bant-y-crug i Pisgah.

· Angen darparu llwybr addas i'r ysgol o Blaengeuffordd.

· Sicrhau bod blaenoriaeth i gael safleoedd pasio ar riw Gwarallt.

I orffen fe hoffwn ddiolch yn fawr i'r cynghorwyr am eich amser a'ch cefnogaeth yn dod i'r cyfarfodydd cyngor yn fisol a'r cyfarfodydd allanol eraill pan fo galw arnoch. Yn ogystal, fe hoffwn ddiolch yn fawr i Miss Meinir Evans, ein clerc, am ei gwaith caled a'i hymroddiad yn ystod y flwyddyn galed ac am ei chymorth personol mae wedi ei ddangos i mi fel Cadeirydd y Cyngor.

**Y Cynghorydd Sir**
Cyflwynodd y Cynghorydd Rhodri Davies, cynrychiolydd yr ardal ar Gyngor Sir Ceredigion rai o'i ddyheadau am y bedair blynedd nesaf. Bwriedir cynhyrchu cylchlythyr bob chwarter a bwriada gynnal rhyw fath o feddygfa lle bydd yn bosib i etholwyr i alw mewn â'i sylwadau iddo.

**Ethol Swyddogion**
Etholwyd y Cynghorydd Dafydd Fryer yn Gadeirydd y Cyngor a'r Cynghorydd Wynne Jones yn is-gadeirydd.

# TREFEURIG

## Lansiad Bowlio Dan Do



Yn ddiweddar, diolch i grant o £950 gan Sports Lot Wales, a ddefnyddiwyd ar gyfer prynu matiau a pheli bowlio, lawnsiwyd Bowlio dan do yn Ysgol Trefeurig. Daeth y Swyddog Datblygu Chwaraeon, Steve Jones i'r lansiad i ddymuno'n dda inni gyda'r prosiect ac i ymuno mewn noson wych o hwyl a chymdeithasu, gyda dros 30 o aelodau'n bresennol i gefnogi'r digwyddiad.

Rhoddodd Mr Wyn Hughes, Llangadog, arddangosfa addysgiadol ar sut i chwarae'r gêm, a goruchwyliodd grwpiau o'r rhai oedd yn bresennol oedd am roi cynnig ar fowlio. Mae Felicity Wills wedi cytuno i drefnu nosweithiau yn y dyfodol. Os oes gennych chi ddiddordeb cysylltwch â Fil ar 828677.

Roedd y noson hefyd yn gyfle i John Nelson a Trefor Davies i gyhoeddi lansiad gwefan Ysgol Trefeurig y buont yn gweithio arni yn ystod y mis diwethaf. Ewch i'r wefan i gael y newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau lleol a datblygiad yr ysgol fel canolfan gymunedol

www.ysgoltrefeurig.org.uk

## Te hufen a mefus

Cynhelir Te Hufen a Mefus yn hen ysgol Trefeurig, prynhawn Sul 22ain o Fehefin rhwng tri a phump o'r gloch, i godi arian ar gyfer elusen Marie Curie.











Y TINCER

# PENRHYN-COCH

## Suliau

**Horeb**
*Gorffennaf*
6 10.30 Clwb Sul 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
13 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
20 10.30 Clwb Sul 2.30 Oedfa yng nghwmni ein cenhades gyswllt gyda phaned yn dilyn Gweinidog
27 10.30 Oedfa gymun Gweinidog

*Awst – ymuno â eglwysi'r dref*
3 (Seion) Y Parchg Elfed ap Nefydd Roberts
10 (Bethel) Y Parchg Gwenda Richards
17 (Y Morfa) Y Parchg D. Ben Rees
24 (Seion) Y Parchg Hugh Matthews
31 (Bethel) Y Parchg Emyr Gwyn Evans

*Medi*
7 10.30 Clwb Sul 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
14 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
21 10.30 Clwb Sul 2.30 Oedfa gyda phaned yn dilyn Y Parchg Peter M. Thomas
28 10.30 Oedfa bregeth & Clwb Sul Gweinidog

## Darn gan fyfyriwr lleol

Dewiswyd darn gan Trystan Davies, Glan Ceulan, ar gyfer cystadleuaeth llefaru unigol Bl 5 a 6 yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Enillodd Oedolion mewn Eisteddfod yn 2001 ac eleni dewiswyd nifer o gynnyrch llenyddol buddugol Eisteddfodau'r gorffennol fel darnau gosod.

## Cymorth Cristnogol

Cyfanswm casgliad Penrhyn-coch eleni yw £1,283.48 – mae hyn yn cynnwys £137.50 a godwyd yng nghinio'r tlodion a drefnwyd gan Eglwys Sant Ioan a £117 a godwyd mewn cyngerdd yn Horeb gyda Cantre'r Gwaelod a Gwenno ac Annwen Morris. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, a'r Trysorydd, Eleri James, ddiolch i bawb a fu'n casglu yn y pentref er sicrhau fod casgliad yn digwydd yn y pentref eleni eto. Yn ogystal a'r casglwyr arferol Gabi Coulter-Brown, Glyn Collins, Mervyn Hughes, Mairwen Jones, Glenys Morgan, Gwenan Pryce, Wendy Reynolds, Wendy Roberts, Elenid Thomas, Ceri Williams – cafwyd cymorth eleni gan Margaret Lyle a Mair Evans yng Nglan Ceulan, y Parchg Judith Morris yng Ngarn Wen a Mererid Jones yn Nolhelyg.

## Ennill eto

Llongyfarchiadau i Carys Mair Davies, Aberystwyth – enillydd Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch eleni a'r llynedd am ennill Tlws arall – y tro yma Tlws yr Ifanc yn Eisteddfod Llandudoch dydd Sadwrn Mai 17.

## Croeso

Croeso i Arwyn Edwards o Beulah, Ceredigion i 9 Maesyrefail; mae Arwyn yn fyfyriwr ymchwil ym Mhrifysgol Aberystwyth ac wedi cael Ysgoloriaeth ôl-raddedig HEFCW (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru) Microbioleg yw ei bwnc ac mae'n astudio prosesau cysgadrwydd ac egino mewn sborau bacteria a ffyngau gan ddefnyddio technegau geneteg, ffisioleg a microbioleg clasurol.

## Cylch Meithrin Trefeurig

Cynhelir bore agored gan Gylch Meithrin Trefeurig fore Mawrth 24 Mehefin o 10:30 tan 12:00. Bydd yna adloniant gan y plant, stondinau amrywiol, a lluniaeth ar gael. Mae 'na groeso cynnes i bawb. Bydd yr elw yn mynd tuag at y cylch.

## Cartref newydd

Dymunwn yn dda i'r Parchedigion Judith a Wyn Rh. Morris fydd yn symud yn yr wythnosau nesaf i'w cartref newydd – Berwynfa, Penrhyn-coch. Pan fydd y ffôn wedi ei gysylltu y rhif fydd 820 939

## Clwb Cinio Cymuned Penrhyn-coch

Dyma'r dyddiadau dros y misoedd nesaf – 25 Mehefin, 9 a 23 Gorffennaf, 13 a 27 Awst, 10 Medi. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i archebu eich cinio.

## Ar y teledu

Yn ddiweddar gwelwyd Lynne Hughes, 47 Ger-y-llan, ar y rhaglenni Mosgito a Stamina ar S4C yn siarad am ei gwaith fel athrawes dawnsio a ffitrwydd a'r pwysigrwydd o fwyta yn iach a chadw'n heini.

## Dymuniadau gorau

Llongyfarchiadau i Katy Evans, Bronhaul, ar gael ei derbyn yn aelod o Heddlu Dyfed-Powys. Bydd yn cychwyn ar ei swydd newydd ar ôl cyfnod o hyfforddiant, fis Mehefin.

## Ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau i Iolo Cheung, Llanfairpwll, ar ennill ysgoloriaeth Evan Morgan i ddod i Brifysgol Aberystwyth i astudio Hanes a Gwleidyddiaeth Rhyngwladol. Mae Iolo yn fab i Hanna (Huws, Tyddyn Seilo gynt) a Paul Cheung a bydd yn cymryd blwyddyn allan i grwydro'r byd, gan gynnwys China, gan ddechrau yn Aberystwyth ym Medi 2009.

## Urdd Y Gwragedd Sant Ioan

Ar ddydd Sadwrn poeth ar y degfed o fis Mai, trefnwyd gwibdaith gan Dwynwen Belsey (sef un o aelodau'r Urdd). Cafwyd seibiant canol bore yn y 'Dyffryn' ger y Foel, Sir Drefaldwyn, cyn teithio ymlaen i lyn Efyrnwy ble treuliwyd rhyw ddwy awr yn y fangre hardd sy'n gartref i adar prin o dan ofalaeth y RSPB, ac yn gyrchfan ar gyfer gweithgareddau agored.

Yna ymlaen at uchafbwynt y daith i Eglwys Santes Melangell ym Mhennant Melangell, nepell o Ben-y-bont-fawr. Eglwys hynafol a chyrchfan pererinion mewn lleoliad hardd ac anghysbell. Saif yr eglwys o dan fryn coediog mewn cwm distaw a diarffordd lle ceir golygfeydd ysblennydd. Fe'n croesawyd gan Howard Edwards (warden yr Eglwys) a thywysodd ni o amgylch wrth adrodd hanes y lle. O gwmpas yr eglwys y mae mynwent o siâp cylch (fel nad oes yna gornel i'r diafol guddio, yn ôl y sôn), lle bu claddfa Oes yr Efydd, ac yn y fynwent y mae rhai o'r coed ywen mwyaf ysblennydd ym Mhrydain sydd yn dyddio'n ôl 2000 o flynyddoedd. Ac wrth gwrs cawsom hanes y Santes ei hun. Morwyn ydoedd, a fu'n byw yno yn y seithfed ganrif. Achubodd Melangell ysgyfarnog rhag helgwn Brochwel, Tywysog Powys. Nawddsant ysgyfarnogod yw Melangell o hyd a bu pererinion yn dod i'r eglwys ers canrifoedd llawer.

Ymlaen unwaith eto i Lanrhaeadr- ym-Mochnant lle cafwyd pryd blasus wedi eI paratoi ar ein cyfer yng ngwesty'r Wynnstay. Yna throi tuag adref, dros fryniau'r Berwyn ar noson heulog braf a phawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Diolchwyd i Dwynwen am drefnu diwrnod cofiadwy.

## Eglwys Sant Ioan

Trefnwyd Cinio'r Tlodion gan bwyllgor codi arian yr eglwys fel ei gweithgaredd ar gyfer wythnos Cymorth Gristnogol ar Sadwrn 17eg o Fai. Cafwyd cawl a bara yn







Bois yr Iaith? Islwyn o Langwyryfon a Howard o Benrhyn-coch fu wrthi yn symud arwydd uniaith Saesneg ger Pen-cwm a gosod arwydd newydd sbon yn ei le. *Lluniau: Richard Huws*

neuadd yr eglwys a oedd wedi ei baratoi a'i weini gan wirfoddolwyr yr eglwys. Yr elw oedd £135. Cynhelir Gŵyl Canol Haf gydag Arddangosfa Blodau a Te Hufen a Mefus (yn ogystal ag atyniadau eraill) ar Sadwrn 21ain Fehefin rhwng 3 - 5 y prynhawn.
Mi fydd arddangosfa blodau'r Eglwys ar agor bob dydd hyd ddydd Gwener y 4ydd o Orffennaf rhwng 2 - 4 y prynhawn.

## Chwaraewraig Brysur

Ar Fai 16 bu Elinor Thorogood, Glan Ceulan, yn cystadlu ym mhencampwriaethau Seiclo 10 milltir Cenedlaethol Prydain yn Swydd Hampshire. Fe gwblhaodd y deg milltir mewn ychydig dros 25 munud i ennill pencampwriaethau ei grwp oed. Hefyd ym Mai fe gynrychiolodd Cymru ym Mhencampwriaethau Elite Triathlon Prydain yn Reading oan orffennodd yn bedwerydd yn y ras ieuenctid dan 20 a 18fed overall. Cafodd Elinor ei noddi gan y cwmni lleol o Benrhyn-coch, Fruit Blend, ac mae yn hynod ddiolchgar i'r cwmni am hyn.

## Croeso

Croeso i Rheinallt a Sarah i'w cartref newydd yn 42 Dolhelyg.

## Neuadd Newydd Y Penrhyn

Anfonir holiadur at bawb yn yr ardal yn fuan. Pwrpas yr holiadur yw rhoi cyfle i bawb leisio eu barn ar y cynlluniau i gael neuadd newydd i'r pentref ac i restru yr hyn a fynnant ei weld yn digwydd ynddi.

Gobeithir anfon yr holiadur ym mis Mehefin a derbyn yr atebion yn ôl ar 18 Gorffennaf. Wedi coladu'r wybodaeth, fe gyhoeddir y canlyniadau gan yr Is-Bwyllgor a benodwyd gan Bwyllgor y neuadd i drafod y mater.

Ar ôl eu llenwi, gellir rhoi'r holiaduron mewn bocsys a ddarperir yn Ysgolion Penrhyn-coch a Threfeurig ac yn Garej Tŷ Mawr a'r Swyddfa Bost ym Mhenrhyn-coch. Gellir hefyd lenwi'r holiadur ar-lein ar www.trefeurig.org

## Lily Eirwen Jones

Hunodd Mrs Lily Jones, 4 Maesyfelin, Penrhyn-coch yn dawel yn Ysbyty Bron-glais fore Sul Ebrill 13, 2008. Ganwyd hi yn y Rhyl ar Ragfyr 1, 1928 yn unig ferch i John Edward a Hannah Jones, Brickfield Terrace sydd wedi diflannu ers rhai blynyddoedd bellach. Daeth trallod i'w bywyd yn ifanc - bu ei thad a'i mam farw a'i gadael yn amddifad yn wyth oed. Magwyd hi am gyfnod gan ei thaid a'i nain ond ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd ymgartrefodd gyda chwaer ei mam a'i gŵr, Mr a Mrs Robert Edwards, Sisson Street, (Anti Pol i lu o blant ac Yncl Bob). A'r rhyfel ar ei anterth gadawodd yr ysgol yn bedair ar ddeg oed i weithio fel clerc gyda busnes masnachwr nwyddau adeiladu a siop nwyddau haearn ac yn y man yn dod yn glerc cyfrifon. Symud wedyn i weithio mewn busnes offer swyddfa a theipiaduron ynghyd a siop. Yn y cyfnod hwn roedd Lily yn ymddiddori mewn cerddoriaeth a chanu, yn aelod o Gymdeithas Corawl Y Rhyl a Chlwb Miwsig y dref ac yn aelod yng nghapel Wesla Soar. Yno y cyfarfu â John Ifor Jones a ddaeth yn y man yn ŵr iddi. Hwnnw wedi derbyn cytundeb i weithio gyda Swyddfa'r Post yn Southern Rhodesia am dair blynedd, ac yno ym mis Hydref 1951 y priododd y ddau yn Eglwys yr Alban Salisbury (Horare, Zimbabwe heddiw) a hynny wedi i Lily deithio ar ei phen ei hun ar fordaith o Lerpwl i Cape Town ac yna ar y trên i Salisbury, y daith yn cymryd tair wythnos - tipyn o fenter. Dychwelyd i Gymru ym mlwyddyn y coroni - 1953 - ac ymgartrefu unwaith eto yn y Rhyl ac yn y man llonnwyd yr aelwyd gyda dyfodiad Owain a Gethin. Blynyddoedd prysur yn magu'r bechgyn ac ymwneud â theulu estynedig lluosog. Cefnogi John yn ei waith fel ysgrifennydd Eglwys Carmel, Eisteddfod y Plant, Cymanfa Ganu Dyffryn Clwyd, Cyngor Ysgolion Sul ac yn y blaen a gweithgareddau'r Capel ac Ysgol Dewi Sant. John yn cael dyrchafiad i fod yn Bostfeistr Caernarfon, a symud yno yn 1970. Blynyddoedd prysur eto, y bechgyn yn eu harddegau, ac yn ymroi i weithgaredd ysgol, paratoi at arholiadau a phrifysgol ac Owain a'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth. Capel Salem yn fwrlwm o weithgareddau dan weinidogaeth y Parchg Ieuan Davies (sy'n garedig iawn yn cyfeirio at Lily yn ei hunangofiant a gyhoeddwyd yn ddiweddar Trwy Lygaid Tymblwr - a Gweinidog. Cyfnod wedyn yn Aberystwyth a symud i Gaerfyrddin yn 1980 gan ddychwelyd i Benrhyn-coch ar ymddeoliad John yn 1986.

Yr hyn a nodweddai Lily





Thema'r Cylch Meithrin y tymor yma yw 'Pobl o'n cwmpas'. Mae'r plant wedi mwynhau dysgu am hyn, gan gwrdd â gwahanol bobl yn yr ardal yn arbennig yr heddlu cymunedol a'r frigâd dân. Wnaeth y plant joio cwrdd â'r ddau yn enwedig gweld yr injan dân a'i chriw yn agos yn hytrach na'i gweld yn gwibio heibio ar frys i ddiffodd tân! Bu'r Cylch yn gwneud yn fawr o'r tywydd braf gan gynnwys ymweld â'r ardal a chynnal gweithgareddau y tu allan. Un diwrnod fe fu ar drip o amgylch plwyf Trefeurig. Gwnaeth y plant ymweld â cheffylau un o'r rhieni, tŷ newydd sbon sydd yn cael ei adeiladu, a hefyd cawsant bicnic yn y parc. Fe wnaeth y plant i gyd fwynhau eu hun yn fawr.



Yn dilyn llwyddiant Côr Penrhyn-coch yn yr Eisteddfod leol prynwyd 12 o ffaniau desg gyda'r wobr i'w cyflwyno i Ward Meurig, Ysbyty Bron-glais. Yn y llun gwelir Alun John, yr Arweinydd, Staff-nyrs Elaine Elston o Ward Meurig, hefyd Wendy Reynolds a Mair Evans, aelodau o'r côr.

# PENRHYN-COCH (parhad)

oedd y gallu i ymwneud â phobl a'i hanwyldeb yn ei galluogi i wneud ffrindiau a chyfeillion newydd lle bynnag y bu hi'n byw, a'i hiwmor caredig yn amlygu ei hun fel heulwen. Ei haelioni a'i pharodrwydd i gynorthwyo yn ddiarhebol, a hynny a'i dawn fel cogyddes yn amlygu ei charedigrwydd trwy baratoi cacennau at bob math o achlysuron, wedi'i haddurno yn gywrain at briodasau, pen blwyddi a digwyddiadau arbennig fel dathliadau o bob math, rhai ysgafnach at foreau coffi, achosion da, partïon plant, fel lluniaeth i rai'n mynychu Sioe ac Eisteddfod Penrhyn-coch, ac i ffrindiau a chleifion wrth ymweld. A'r ddawn i ymwneud â phobl yn amlygu'i hun dros y blynyddoedd trwy ei gwaith gwirfoddol gyda'r Samariaid a'r Ganolfan Gynghori, Capel, Ysgol Sul, a Chlwb Ieuenctid yng Nghaernarfon. Ac ar ben hyn i gyd bu'n gweithio i Awdurdod Iechyd Gwynedd yn ei chyfnod yng Nghaernarfon ac i John Francis a'i Gwmni yng Nghaerfyrddin.

Ond daeth afiechyd i'w hamddifadu o'r gallu i ymgymryd ag unrhyw weithgaredd tu allan i'w chartref ac er brwydro'n ddewr tra gallai roedd cymylau ei hafiechyd yn crynhoi amdani. Bu yn yr ysbyty droeon yn y misoedd diweddar a daeth ei phererindod ddaearol i ben ar Sul Ebrill 13, 2008 yn Ysbyty Bron-glais. Nodweddiadol iddi huno ar y Sul, un a fu mor deyrngar i'w Chapel. Er mor flin ei dyddiau olaf gellir dweud amdani 'Cadwodd y ffydd hyd y diwedd'. Cynhaliwyd ei harwyl yn Seion, Baker Street, ar Ebrill 19, 2008 gyda'i gweinidog y Parchg Andrew Lenny yn arwain, a thalodd deyrnged ddiffuant gofiadwy iddi. Cynorthwywyd gan y Parchg Ddr Geraint Tudur a'r Parchg Ddr Alun Tudur, neiaint iddi, y Parchg Ddr Terry Edwards a'r Parchedigion Irfon Evans a W J Edwards gyda Mr Howard Williams wrth yr organ, a'r chwaeroliaeth yn paratoi lluniaeth i'r galarwyr. Claddwyd ei gweddillion ym Mynwent Cefn-llan, Llanbadarn Fawr.

## Gwefan gymunedol

Lawnsiwyd gwefan gymunedol newydd plwyf Trefeurig gan Elin Jones, ein Aelod Cynulliad a'r Gweinidog Materion Gwledig nos Iau, 15 Mai, yn Ysgol Penrhyn-coch. Roedd yr Aelod wedi




ymddangos ar Question time gyda David Dimbleby o Gaerdydd oherwydd yr ymrwymiad!

Fel rhan o'r noson cafwyd adloniant gan ensemble o bedwar lleol o Gôr Ger-y-lli (Ffion Evans, Gwenno Healy, Rhys Hedd a Mari Wyn Lewis) a chôr a pharti llefaru Ysgol Penrhyn-coch. Wrth gyflwyno eitemau yr ensemble talwyd teyrnged i Greg Roberts, arweinydd Ger-y-lli, gan Emyr Pugh Evans, am roi cyfle cerddorol i'r ieuenctid.

Cyfeiriad y wefan yw www.trefeurig.org ac fe'i sefydlwyd gan Bwerdy Trefeurig, rhan o gynllun Pwerdai Ceredigion a noddir gan Cered a Theatr Felin-fach. Cofiwch roi gwybod i'r golygydd golygydd@trefeurig.org am unrhyw wybodaeth am eich mudiad, digwyddiadau etc. yr hoffech eu gweld ar y safle.

Fel rhan o'r wefan ceir tudalen i'r *Tincer* – lle gellir darllen y rhifyn cyntaf ac ôl-rifynnau diweddar o'r papur.

Diddorol oedd clywed fod y wefan rhwng 4 Mai a 3 Meh wedi cael :
469 o ymweliadau
gan 201 o unigolion
8, 262 o dudalennau
Cafodd Oriel Hugh Jones 606 ymweliad
ac Oriel Agnes Morgan 419 ymweliad
Cymdeithasau = 361
Eisteddfod = 334
Hanes = 231
Awduron = 194

Daeth 457 ymwelydd o Brydain (yn cynnwys 166 o Lundain!)
9 o UDA
1 o Ariannin (Buenos Aires)
1 o Ffrainc (Paris)
ac 1 o'r Almaen.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i'r canlynol: Gillian Dobson, Cae Mawr ac i Connie Powell, Glan Ceulan, Mansel Beechey, Y Felin a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar. I June Allsopp, Ger-y-Llan, Nan Balfour, Bronheulog sydd



Pwyllgor y wefan – gyda'r Cynghorydd Dai Suter ac Elin Jones. Cefn – Ceris Gruffudd, William Howells (Gwefeistr), Y Cynghorydd Dai Suter, Emyr Pugh Evans; rhes flaen: Elin Jones, Glenys Morgan (Trysorydd) , Vera Bowen (Ysgrifennydd), Y Cynghorydd Richard Owen (Cadeirydd) a Rhodri Francis (Swyddog Cered – sydd yn byw ym Mhenrhyn-coch).



Disgyblion Ysgol Penrhyn-coch

yn Ysbyty Bron-glais, i Menna Jenkins, Maesaleg sydd yn Ysbyty Tregaron, hefyd gwellhad buan i Ellen Shepherd, Dolhelyg a gafodd ddamwain pan ar ei gwyliau yn yr Alban ond sydd wedi dod gartref bellach.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau, 8fed o Fai fe aethom ar daith dirgel ac wrth fynd ar y bws i gyfeiriad y de o Aberystwyth roedd pawb yn ceisio dyfalu lle roeddem yn mynd. Ond yn wir i chi, o'r diwedd cyrhaeddom ben ein taith a gweld o'm blaen Pentre Bach. Roeddem wedi dod i fyd Sali Mali a Jac y Jwc. A gan fod y tywydd yn ffafriol treuliwyd noson arbennig yn mynd o amgylch pentre a gweld pob math o bethau oedd yno i ddiddori pawb. Nid yn unig yn wych i blant ond i ni fel oedolion. Roedd y pethau a welsom yn gwneud i ni deimlo ein bod mewn gwahanol fyd. Byd o lawenydd a hud. Aeth Adrian Savill, Perchennog y Pentre ynghyd a'i wraig a ni o amgylch tai'r gwahanol gymeriadau sydd yn byw yno. Noson arbennig iawn ac i roi diweddglo gwych i'r noson cafwyd swper yn y caffi gyda Rosa wedi paratoi bwyd blasus dros ben i ni. Os am wyliau arbennig, dewch i aros i Pentre Bach, mae yn lle mor braf at ddant pawb. Diolchodd Mair Evans i'r perchennog a phawb am noson fyth gofiadwy.

Wrth gael ein swper fe aethom dros beth o fusnes arferol y gangen ac ethol swyddogion am dymor 2008/09. Diolchodd ein llywydd Mair Evans i bawb a fu o gymorth iddi yn ystod y tymor aeth heibio a dymunodd yn dda i swyddogion y tymor sydd i ddod ym mis Medi, sef y canlynol:

Llywydd: Mairwen Jones
Is-lywydd: Ceri Williams
Ysgrifennydd: Glenys Morgan
Ysgrifennydd Cofnodion: Wendy Reynolds
Is-ysgrifennydd cofnodion: Mair Evans
Trysorydd: Janice Morris
Is-drysoryddion: Sandra Beechey ac Eirlys Davies
Y Pwyllgor: Mona Edwards, Glenys Thomas, Mary Thomas, Judith Morris, Mair Evans, Mair Jenkins, Margaret Evans
Gohebydd y Wasg: Mairwen Jones
Dosbarthwraig y Wawr: Miriam Garratt

Llongyfarchiadau i Wendy Reynolds am gael cyntaf yng nghystadleuaeth gwneud cacennau “Maids of Honor” ac i Glenys Morgan am gael ail yng nghystadleuaeth gwneud gemwaith yn Ffair Celf a Chrefft Rhanbarth Ceredigion yn Aberaeron ym mis Mai.  Diolch i bawb o’r gangen a gymerodd ran.  Yr ydym yn falch iawn fod Glenys Morgan un o’n haelodau yn rhan o Bwyllgor Celf a Chrefft Rhanbarth Ceredigion ac am y gwaith mae’n ei gwneud.  Diolch hefyd i’r rhai a gymerodd ran yn chwaraeon MYW yn Ffair Machynlleth ym mis Mai.  Mwynhewch bawb eich seibiant dros yr haf a gobeithio y cawn weld aelodau newydd ym mis Medi.  Mae croeso i chi gyd ferched ymuno â ni.



## Diaconiaid Horeb

Mewn oedfa brynhawn Sul Mai 4ydd dewiswyd Sandra Beechey, Mairwen Jones a Henry Thomas yn ddiaconiaid yn Horeb. Fe’i neilltuwyd mewn oedfa gymun ar Fehefin 1af.

Am adroddiad Cyngor Cymuned Trefeurig gwelir tudalen 20

## Sefydliad y Merched Penrhyn-coch

Dydd Mercher, 23 Ebrill, roedd Mrs Ann Jones, Cynghorydd y Ffederasiwn gyda ni a hyfryd oedd gweld y pum gosodiad blodau y llwyddodd i’w creu, a phob un yn hollol wahanol i’r lleill.  Y pum enillydd lwcus oedd Mrs Liz Lloyd, Mrs Maureen Kinninmonth, Mrs Jenny Rees, Mrs Vicki Thomas, Mrs Jenny Evitts a Mrs Bobby Balfour. Aethom ni ’mlaen i edmygu’r gosodiadau hyfryd tra’n mwynhau cwpanaid a baratowyd gan Miss Maragaret Lile a Mrs Margaret Evans.  Yn ein cyfarfod cyntaf ym mis Mai roedd ein trysorydd Mrs Bobby Balfour yn ein hannog ni i safio egni a byw bywyd llai gwastraffus o ran yr amgylchfyd.  Bydd ein biliau trydan a nwy yn siŵr o fod yn llai o hyn allan!  Roedd gennym lawer i feddwl amdano dros ein paned  bisgedi a baratowyd gan ein llywydd Mrs Jenny Evitts a’n hysgrifenyddes Mrs Julie James.

Ar Fai 21, cawsom drafod y gosodiadau fydd yn mynd o flaen Cyfarfod Blynyddol Cenedlaethol y mudiad y mis nesaf yng nghwmni Mrs Jo Davies fydd yn ein cynrychioli yn y cyfarfod hwnnw.  Roedd syched arnom ar ôl y drafodaeth ac yr oeddem i gyd yn barod am ein paned a baratowyd gan Mrs Bobby Balfour a Mrs Linda Evans.  Enillydd y raffl oedd Mrs Julie James.

## Cymdeithas Ymddeolwyr Penrhyn-coch

Dydd Mercher, Mai 8fed, fe aethom ar drip drwy ffyrdd China, rhai prysur a rhai tawel gwledig, diolch i sleidiau a fideo Dr Dennis Bates.  Diolchodd y Parchedig Livingstone iddo am y siwrnai ddiddorol.  Dros ein cwpanaid cawsom gyfle i fwynhau’r arddangosfa yr oedd Dr Bates wedi ei pharatoi i ni. Enillydd y raffl y mis yma oedd ein cadeirydd Mrs Kathleen Williams.

## Dyfeisydd yn ennill Cystadleuaeth Genedlaethol

Cafodd Dr Huw Thomas o Benrhyn-coch weld ei ddyfais yn cael ei harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe drwy gydol mis Mai ar ôl ennill cystadleuaeth i ganfod dyfeiswyr newydd o Gymru.

Canmolwyd Huw am botensial masnachol ac ymwybyddiaeth gymdeithasol ei ddyfais, y Promove Sling.

Cafodd Huw, sy’n defnyddio cadair olwyn, ei ysbrydoli i ddylunio’r sling ar ôl i ddynion tân orfod ei godi o lawr cyntaf adeilad ar ôl i’r lifft dorri. Mae’r gwyddonydd wedi ymddeol ac wedi creu dyfais gwacâd mewn argyfwng a all helpu pobl anabl neu analluog, a hefyd y boblogaeth gynyddol o bobl ordew yn y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd.

Roedd y cystadleuaeth ‘Ffau Dyfeiswyr’ yn rhan o’r Mis Amgueddfeydd ac Orielau 2008 sy’n rhedeg rhwng 1 - 31 Mai. Y thema ar gyfer y Mis oedd syniadau ac arloesedd, a gofynnwyd i’r rhai a gymerodd ran yn y gystadleuaeth i gyflwyno eu syniadau ar gyfer syniadau a dyfeisiadau o Gymru ar gyfer y dyfodol a fedrai newid bywyd er gwell.

Beirniadwyd y gystadleuaeth gan gynrychiolwyr o ysgol dylunio cynnyrch Prifysgol Morgannwg, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe a Swyddfa Eiddo Deallusol y Deyrnas Unedig yng Nghasnewydd.

Dywedodd Huw, sy’n dioddef o ddystroffi’r cyhyrau: “Roeddwn i wrth fy modd i ennill y gystadleuaeth ac yn hynod falch bod y sling wedi cael ei arrddangos i ymwelwyr yn Amgueddfa’r Glannau. Mae llawer o bobl wedi sôn pa mor ymarferol yw’r sling ond mae’n wych derbyn cydnabyddiaeth. “

Mae’r Promove yn ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i symud unigolion mewn sefyllfaoedd anodd. Medrir ei defnyddio i symud a thrin pobl analluog neu anabl, yn cynnwys unigolion trwm hyd at 45 stôn, mewn gofod cyfyng neu yn yr awyr agored lle na fedrir defnyddio hoist.

Mae’r sling yn addas ar gyfer gwasanaethau argyfwng, darparwyr gwasanaeth meysydd awyr, rheolwyr cyfleusterau cyhoeddus a’r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae’r cynnyrch yn cael ei dreialu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar hyn o bryd, yn ogystal â gan frigadau eraill yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Aeth Dana Thomas, partner busnes Dr Huw Thomas ac hefyd o Benrhyn-coch i Genefa ym mis Ebrill ar gyfer Arddangosfa Ryngwladol Dyfeisiadau 2008, ennillodd y ddyfais fedal efydd yn yr arrdangosfa yma.

Medrir dodi Promove yn rhwydd o dan berson analluog sydd ar y ddaear, yn eistedd mewn cadair neu wedi’i gyfyngu mewn cornel dyn. Mae’r sling yn rhoi cefnogaeth dda, gan ffurfio sedd gadarn siâp bwced dan yr unigolyn. Mae handlenni mewn lleoliad strategol ar y ddyfais yn ei gwneud yn bosibl i’w defnyddio gan ddau neu bedwar gweithiwr (neu hyd at wyth ar gyfer unigolion trwm iawn).



# BOW STREET

Suliau Gorff. - Medi
Y Garn
10 a 5
www.capelygarn.org

Gorffennaf
6 Bugail
13 D Harding Rees
20 Bugail
27

Awst
3 Noddfa 10
10 Huw Roderick
17 Noddfa 10
24 Lewis Wyn Daniel
31 Noddfa 10 Arwyn Pierce

Medi
7 Tecwyn Jones Bugail
14 Raymond Davies
21 Bugail
28 John Pinion Jones

Suliau Noddfa

6 2.00 Gweinidog
13 2.00 Y Parch W J Edwards
20 5.00 Y Parch Ifan Mason Davies
27 5.00 Gweinidog. Cymundeb

Awst
3 10.00 Mr Huw Roderick
10 10.00 Uno yn Y Garn
17 10.00 Mr Arwyn Pierce
24 10.00 Uno yn Y Garn
31 2.00 Y Parch Llinos Gordon. Cymundeb

Medi
7 2.00 Gweinidog
14 2.00 Gweinidog
21 5.00 Mr Walford Gealy
28 5.00 Parch Marc Morgan. Gwasanaeth Diolchgarwch

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Ken Edwards, Maes-y-garn, a Mrs Mair Davies, Brynsiriol ar enedigaeth ŵyr cyntaf, sef Gethin Elis, i Hayley ac Alun yn Nhal-y-bont a brawd i Heledd ac Eleanor.

## Priodas

Llongyfarchiadau i Gruffudd Jones a Joanna Simkins, 45 Maes Afallen, ar achlysur eu priodas ddydd Sadwrn 7fed o Fehefin yn Eglwys Llangorwen.

## Licris Olsorts

Daeth cwmni drama Licris Olsorts, sydd a nifer o aelodau o'r ardal, i beth llwyddiant eleni eto. Enillodd y cwmni Dlws Coffa Buddug James Jones - cyn gyfarwyddwr y cwmni, wrth gwrs - yng Ngŵyl Ddrama Eisteddfod Talaith a Chadair Powys yng Nghorwen ddechrau mis Mai gyda'r ddrama "Dail Tafol" gan Eigra Lewis Roberts. Cafodd yr un ddrama y drydedd wobr yng Ngŵyl Ddrama'r Groeslon, bythefnos ynghynt, a derbyniodd Sion Wyn Hurford - actor ieuengaf y cwmni sydd ddim ond 7 oed - wobr arbennig.

Hefyd, yng Nghorwen, derbyniodd Sion Glyn Saunders Jones dlws y prif actor dan 30 oed am ei ran fel Martin mewn drama arall - "Rhwng Pob Cwgaid" - cyfieithiad Emyr Edwards o ddrama gan Alan Aykbourn. Gyda "Rhwng Pob Cegaid" y daeth y cwmni i'r brig yng ngwyl Ddrama Eisteddfod Teulu James, Pontrhydfendigaid ar y 17eg Mai.

Cipiodd y Cynghorydd Rhodri Davies Dlws yr Actor/Actores orau dros 25 oed am ei ran fel y Gweinydd yn "Rhwng Pob Cegaid", ac aeth Tlws yr Actor/ Actors Orau dan 25 oed i Rhian Dobson am ei rhan fel Kate yn "Dail Tafol", a derbyniodd Sion Wyn Hurford wobr arbennig arall!

Mae'r ddrama "Rhwng Pob Cegaid" wedi mynd ymlaen i'r prawf terfynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn mis Awst, ac fe fyddant yn perfformio nos Fawrth Awst 5ed am 8 o'r gloch yn Theatr Fach y Maes.



Brenda Jones a Shân Hayward yn cyflwyno anrheg bach i John Jones, Gwynfa, ar ddechrau Noson Goffi`r Henoed yn Bow Street yn ddiweddar.



Fore Sul, Mai'r 18fed, a hithau'n Sul Cymorth Cristnogol, cynhaliwyd oedfa undebol rhwng Capel Noddfa a Chapel y Garn yn y Garn, dan arweiniad y Parchedig Wyn Rhys Morris. Ar ôl i blant yr ysgol Sul, ynghyd â'r band pres, gymryd at y rhannau agoriadol, cafwyd cyflwyniad gan y Gweinidog ar weithgareddau Cymorth Cristnogol drwy gyfrwng y dechnoleg ddiweddaraf, gyda Marian Beech Hughes yn rheoli'r cyfrwng. Llio Penri oedd wrth yr organ. Wedi hynny neilltuwyd i'r festri i fwynhau pryd o fara a chaws, a oedd wedi ei baratoi gan Dwysli Peleg Williams a'i thim o gynorthwywyr er budd Cymorth Cristnogol. Dyma rai o'r bobl fu'n cyd-giniawa.




Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Bow Street o dan 13 oed ar ennill y cwpan yng Ngŵyl Pêl-droed Aberaeron yn ddiweddar

## Diolch

Dymuna Eunice Davies, 15 Tregerddan, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am eu cymorth parod yn ystod ei chyfnod yn ysbytai Bron-glais ac Abertawe, ac ar ôl dychwelyd gartref. Bu'r ymweliadau, y galwadau ffôn a'r cymwynasau yn gysur ac yn galondid. Gwerthfawrogir hefyd ymweliadau'r gofalwyr a diolchir i'r rhai sy'n dod a chinio iddi bob dydd.

## Cymorth Cristnogol

**Bow Street a Llanfihangel Genau'r-glyn**

£2,043.08 oedd y cyfanswm wrth gasglu o ddrws i ddrws, ac yr ydym yn diolch i'r mwyafrif am ymateb i'r alwad, ac yn neilltuol felly i'r casglwyr am eu cyfraniad cwbwl hanfodol. Casglodd Miss Meinir Lowry yng Nghae'r Felin yn ogystal â'i hardal arerfol, a daeth Mrs Carolyn Smith i'r adwy yn Afallen Deg, a Mrs Beryl Hughes yn Llanfihangel Genau'r-glyn. Yr ydym yn ddiolchar iawn i'r tair, ac i Mrs Pat Davies, Mrs Bet Jones a Mrs Llinos Dafis am eu cyfraniadau hwythau yn y gorffennol. Mae fy nyled yn fawr iawn, fel arfer, i Bryn Lloyd, y trysorydd; Mrs Mary Thomas, yr arolygydd, a Mrs Audrey Williams am gael pethau i daflo.

Cyfranwyd £81.90 mewn oedfa i holl eglwysi'r ofalaeth ac eglwys Noddfa yng nghapel y Garn, a £163.30 pellach yn ystod cinio bara a chaws wedi ei drefnu gan Mrs Dwysli Peleg Willams gyda chymorth chwiorydd capel y Garn. Cafwyd £25 gan ysgol sul y Garn a £100 gan ysgol sul Bethlehem. Yr ydym yn hynod ddiolchgar am y cyfraniadau sylweddol hyn, sydd yn ychwanegiad derbyniol tuag at gyrraedd cyfanswm terfynol o £2,413.08.

Gwyn Jones, Llys Maelgwyn, Pen-y-garn.

## Newid aelwydydd

Dymuniadau gorau i Emyr Dafydd, 13 Maes-y-garn, yn ei swydd gyda Capita Symonds, Cwmbrân. Bydd gweddill y teulu - Awen, Mirain a Saran yn ei ddilyn i'w hardal newydd yn ystod yr haf.



Priodwyd Mary o Falkirk a Dafydd o Llys Maelgwyn, Pen-y-garn ar y cyntaf o Fawrth. Mae Mary yn gweithio yn Theatr lawwfeddygol Ysbyty Inverness, tra bod Dafydd yn Drefnydd Cynllunio i Gyngor yr Ucheldir yn Inverness ac yn gyfrifol am Ross a Cromarty o Dingwall; Lochaber o Fort William ac Ynys Skye o Portree. Mae'r ddau yn cerdded yr ucheldiroedd ac yn dringo mynyddoedd yn eu horiau hamdden. *Llun: 'The Write Image' Fort William.*

Pob dymuniad da hefyd i'r teulu o 4 Faes-y-garn - Dr Thomas Varghese, Sarah Cherian, Joanna a Kripa (merched) sydd wedi dychwelyd i Kerala, yn ne-orllewin India – lle mae'r merched wedi cael ysgoloriaeth i fynychu ysgol.

## Cyfarchion

Dymuniadau gorau am adferiad llwyr a buan a chofion i''r Parchedig R W Jones, Wrecsam, cyn-weinidog gofalaeth y Garn a fu'n cael triniaeth yn yr ysbyty'n ddiweddar.

## Cerddorol

Llongyfarchiadau i Dafydd Rees, Brysgaga, ar ennill yr unawd pres dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Conwy.

## Gwellhad buan

Croeso adref a gwellhad buan i Mrs Eunice Davies, Tregerddan, ar ôl ei hymweliadau â ysbytyai Singleton a Bron-glais.

Gwellhad buan hefyd i Mrs Kitty Evans, Tan y Foel, Y Lôn Groes ar ôl ei ymweliad â ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn a Mrs Teresa Livermore a Kenny Sunny Bank ar golii ei gŵr yn ddiweddar.



Rowland Rees, Brysgaga, yn derbyn cloc ar ei ymddeoliad fel trysorydd, am 13 o flynyddoedd, gyda Chlwb Bridio Gwartheg Duon Cymreig De Cymru oddi wrth Meirion Botwood, cadeirydd y clwb. Gwelir hefyd Huw Jones, Llety Cynnes, y trysorydd newydd.



Rhai o aelodau'r cwmni, gyda'r tlysau a enillwyd eleni. Nid yw Sion Wyn Hurford na'r Cynghorydd Rhodri Davies yn y llun.

## Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow Street

Cynhaliwyd ein Noson Goffi flynyddol ar noson braf y 23ain o Fai. Croesawodd y Parchg Richard Lewis bawb i'r noson a chyflwynodd ein gŵr gwadd, sef Mr John Jones , Gwynfa, i agor y noson. Cyflwynodd Mrs Shân Hayward blanhigyn i John. 'Roedd y neuadd yn llawn bwrlwm a bu'r stondinau yn brysur iawn gydol y nos. Mae diolch y pwyllgor yn fawr i'r ardalwyr am eu cefnogaeth eleni eto i wneud y noson yn llwyddiant mawr. Edrychwn ymlaen at ein tripiau, diwrnod llawn i Llandudno ar Fehefin 11eg a hanner diwrnod i Abergwaun i weld "Tapestri y Goresgyniad Olaf" yna nôl i Nanhyfer am bryd o fwyd.

**Carl Evans a'i Fab**

Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch

Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to

820 961 / 07967 527099

# CAPEL BANGOR

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr a Mrs Maldwyn James, Afallon, ar farwolaeth chwaer Mr James - Mrs Ann Elizabeth Davies ( Nansi ) Cwmllinau, ar Fai 1af.

Hefyd, â Mr a Mrs Meic Collison, Dolcniw, ar farwolaeth mam Liz - Mrs Glenys Davies Glen Almond Llanbadarn Fawr. Bu Mrs Davies farw yng Nghartref Hafan y Waun, Waunfawr, ar y 10fed o Fai. Bendith Duw fo ar y ddau deulu.

## Ysbyty

Da yw deall fod Mrs Gwyneth Harries, Cefnmelindwr, adref o'r ysbyty. Hefyd Mr Elystan Evans, Ardwyn, wedi gwella ar ôl ei salwch.

Dymuniadau gorau i Mr Ross Tomkinson a Mr Meic Bentham, y ddau ar hyn o bryd yn derbyn triniaeth. Hefyd i Mrs Blod Evans, Brynsiriol, sydd wedi bod yn ysbyty Bron-glais ac yn disgwyl cael mynd i Ysbyty Treforus. Gwellhâd llwyr a buan iddynt hwythau.

## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor ar nos Fawrth, 6ed Mai. Llywyddwyd gan Eirwen McAnulty. Cafwyd siom nad oedd siaradwr y noson wedi medru ymuno â ni. Trafodwyd nifer o faterion yn ystod y noson gan gynnwys y daith ddirgel flynyddol a gynhelir eleni ar ddydd Sadwrn, 7fed Mehefin.

Fe'n hatgoffwyd am raglen y flwyddyn a aed heibio gan lywydd y noson a diolchwyd i'r swyddogion presennol am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Diochwyd hefyd i'r aelodau am eu ffyddlondeb a'u cefnogaeth.

Etholwyd y swyddogion canlynol:
Llywydd: Mary Jones
Is-lywydd: Beti Daniel
Ysgrifennydd: Ann James
Is-ysgrifennydd: Ann Louise Davies
Trysorydd: Gwenda Morgan
Is-drysorydd: Glenys Jones
Dosbarthydd *y Wawr*: Angharad Jones
Gohebydd y wasg: Delyth Davies

Yna mwynhawyd cwpanaid o de wedi ei baratoi gan Eirlys Davies (Brynmeillion) ac Anne Davies. Enillwyd y gwobrau raffl gan Margaret Stephens a Beti Daniel.

## Priodas

Llongyfarchiadau mawr i Angharad Rees, merch Mr a Mrs Ieuan a Morwenna Rees, Bwlch Mawr, Capel Seion a Jonathan Lewis, mab Mrs Heulwen a'r diweddar David George Lewis, Deiniol, Pen-llwyn; ar eu priodas yng nghapel "Seion", Capel Seion, ar 10ed o Fai. Treuliasant eu mis mêl yn yr Eidal ac maent wedi ymgartrefu eisioes yn Bronllys, Pen-llwyn. Dymunwn i chi eich dau hapusrwydd a dymuniadau gorau am briodas dda, gyda chroeso cynnes iawn i ti Angharad i Ben-llwyn.



## Barbeciw

Cynhaliwyd barbeciw dan nawdd yr eglwys, yng nghyntedd neuadd yr eglwys ar nos Sadwrn 24ain o Fai, ag sydd erbyn hyn yn weithgaredd flynyddol. Yn ffodus daliodd y tywydd yn sych, a daeth tyrfa dda i flasu y byrgars a'r selsig. Y gwýr oedd yng ngofal y bwyd y tu allan, a'r diodydd a'r pwdins yng ngofal benywod yr eglwys y tu fewn i'r neuadd, a rhaid dweud fod y dewis o bwdins yn anhygoel ac yn blasu yn ardderchog. Tynnwyd y raffl cyn mynd adre, ar ôl noson lwyddiannus.

## Cneifio

Mae amser cneifio y defaid eto wedi cyrraedd. Gweler hen lun gan Mr Glyn Vaughan Maesawel, o weithwyr yn Fuchesgau, Ponterwyd, wedi cneifio diadell Rhiwarthen Isaf, yn ôl efallai rywle o'r pum i'r chwech degau, er nad oes dim sicrwydd o'r dyddiad. Yn drist iawn mae rhan fwyaf ohonynt wedi ein gadael erbyn hyn.



Y rhes flaen : Ieuan Griffiths, Tal-y-bont; Dewi Williams, Maesbangor; Dic James, Tynpwll, a Rhys Jones, Fuchesgau.
Yr ail res: Osi Vaughan, Rhiwarthen Isaf; Emlyn Griffiths, Penlan; Tom Howells, Gelli; Jim Jones, Alltygwreiddyn; Dei Jones, Fuchesgau; Cneifiwr; John Davies, Rhiwarthen Uchaf; Glynne Thomas, Troedrhiwlwba; 2 Gneifiwr; Dei Vaughan, Rhiwarthen Isaf a Dei Stanley Morris a'i fraich ar Rhys Jones.

# COLOFN MRS JONES

Y mae yna dri pheth sy'n bendant yn well o Loegr; - asparagus, celery a mefus ac y mae myfyrio ar hyn yn rhywbeth a wnaf yr amser hon o'r flwyddyn. Dyma, mi gredaf, drothwy fy hoff gyfnod i parthed cynnyrch. Amser y ffa a'r pys gardd a letus a thatws newydd a'r mefus a'r asparagus. Ac fe fydd gennyf domatos gyda hyn i roi mwy fyth o bleser i mi. Mae'n gyfnod pan yw bwyta pump y dydd yn unol ac awgrym y llywodraeth yn bleser.

Fe ysgrifennodd Marcel Proust nofel fywgraffyddol o saith cyfrol, *À la recherche du temps perd* ,(Chwilio'r amseroedd coll) sy'n seileidig ar atgofion o'i eiddo a ysgogwyd gan flasau ac arogleuon bwyd. A mae hwn yn gysyniad cyfarwydd inni i gyd, does bosibl, fod arogl neu flas rhywbeth yn ein hatgoffa o rywbeth a ddigwyddodd inni. Yn bersonol, mae'n rhaid i mi gyfaddef fod hyn yn wir amdanaf fi ac yn arbennig o wir am yr amser hwn o'r flwyddyn. Er fod gan fy nhaid fferm gymysg fe dueddai i ganolbwyntio ar dyfu llysiau gan werthu yn uniongyrchol i westai Llandudno a Bae Colwyn. Ac mae hyn yn ddylanwad arnaf fi hyd heddiw. Dyna i chi blicio pys, er enghraifft, arferai fy nhaid eu gwerthu wedi eu plicio a olygai fod nain a mam a modryb a ni blant yn treulio oriau gyda'n gilydd yn eu paratoi. A hyd yn oed rwan, daw'r weithred o eistedd i lawr i blicio pys a'r atgofion yn ôl o sgwrsio a chwmniaeth dyddiau euraid plentyndod cyn i angau fylchu a rhwygo'r teulu.

Tatws newydd o'r ardd wedyn. Fe fwytai'r cwbl ohonom datws llaeth drwy'r flwyddyn ac ar hyd ei hoes arferai fy mam gorddi rhyw gymaint er mwyn cael llaeth enwyn. Ond yr oedd blas arbennig i datws llaeth y gwanwyn.A pha well i dorri syched na glasdwr oer? Ac os oedd annwyd yn taro yn y gaeaf, posel llaeth enwyn a llwyaid o driogl amdani! Ond heddiw, nid oes neb yn corddi ac er ei bod hi'n bosibl cael llaeth enwyn wedi ei fagu - cultured? - nid oes iddo na'r blas na'r ansawdd iawn. Arferai mam halltu cig moch hefyd ac er na fum erioed yn hoff iawn o hwnnw, nid oes unrhyw amheuaeth nad oedd y saim yn rhoi gwell blas ar fara toddion na dim a welwch chi heddiw!

Ac erys un atgof yn anad dim. Pan oeddem ni'n blant, nid oedd gan dad a mam gar a cherdded y cwbl oedd hi. A roedd yr ysgol yn bell i blant bach ar adeg tywydd drwg - a dyna i chi arwydd newid byd ynddo ei hun, pa riant a fyddai'n gadael i'w blant gerdded adref eu hunain heddiw beth bynnag y tywydd? - a chyrhaeddem adref yn oer a llwglyd.A chael dysglaid o botes iar i gynhesu.Nid bod mam yn cadw ieir ond, pryd hynny, yr oedd cymaint o gadw ieir fel bod yna ddigon o ieir diddodwy ar gael a digon o bobl i'w prynu fel y gallech fynd i siop y cigydd a phrynu iar i'w berwi.A chofiaf hyd heddiw arogl y potes a'i flas ysgafn gyda sgeintiad o bersli ar dop y ddesgil a'i yfed gan glywed arogl coginio y bastai neu'r caserol y byddai mam wedi ei wneud gyda'r cig ei hun.

Heddiw, mae cyn lleied o gadw ieir fel nad wyf wedi medru cael gafael ar froilar fy hun er gofyn a gofyn.Ac efallai nad yw hynny yn ddrwg o beth.

Arferai nain a mam falu ffa coffi i wneud coffi ond, ar dro, os oedd amser yn brin, fe ddefnyddient goffi Camp. Ac un o fan bleserau ni blant oedd cypanaid o Camp a bisged lemon puff - ac yr oedd yn well gennym hynny na'r coffi iawn a byddaf yn myfyrio ar hynny weithiau wrth lenwi fy cafetiere! - ond pan geisiais o ail fyw'r profiad un tro, roeddwn yn siomedig gyda merfeidd-dra'r blas ac efallai fod dyn yn gorfod cydnabod weithiau nad doeth ailgreu'r gorffennol.

# 'O'R CYNULLIAD' - ELIN JONES AC



Mae wastad yn bleser mynychu Sadwrn Barlys yn Aberteifi ac nid oedd eleni yn unrhyw wahanol. Daeth tyrfa dda i'r dref ar ddiwedd mis Ebrill i weld yr orymdaith ac fe gefais i'r fraint o gyflwyno tlysau i rai o'r enillwyr. Yn yr un modd, roedd yn braf gallu agor march-lwybr newydd yn swyddogol yn Long Wood, Betws Bledrws, yn ystod Gŵyl y Banc Calan Mai. Mae atyniadau o'r fath yn dod yn gynyddol bwysig er mwyn denu twristiaid i'r ardal yn ogystal ag er budd y trigolion lleol, ac rwy'n falch bod aelodau o'r gymuned leol wedi dod at ei gilydd i ddatblygu llwybr o'r fath.

Yn Llanddewibrefi, fe ymunais â gorymdaith brotest o amgylch y pentref a oedd wedi ei threfnu er mwyn dangos y gwrthwynebiad sydd yn lleol tuag at gynllun y Post Brenhinol i gau'r Swyddfa Bost leol a chyflwyno gwasanaeth fan symudol yn ei lle. Erbyn hyn, mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben a bydd y Post Brenhinol yn ystyried yr holl ymatebion cyn datgan yn derfynol pa Swyddfeydd Post yng Ngheredigion fydd yn gorfod cau. Fe fydd colli'r Swyddfa Bost leol yn sicr yn ergyd i gymunedau gwledig ac fe all hyn effeithio ar hyfywedd ein pentrefi. Yn benodol, rwy'n pryderu'n fawr am ddyfodol unig siop y pentref yn nifer o'r pentrefi sy'n wynebu bygythiad pe byddai'r Swyddfa Bost yno yn cau. Er gwaethaf hyn, roedd yn dda gweld trigolion mewn cymunedau ar draws Ceredigion yn cydweithio i lunio'r achos dros gadw'r Swyddfa Bost leol ar agor.

Yn olaf, fe fynychais gyfarfod o Fforwm Ieuenctid Ceredigion yn Llanarth yn ddiweddar. Roedd yn galonogol iawn i glywed brwdfrydedd y bobl ifanc yng ngwleidyddiaeth leol a chenedlaethol ac rwy'n cefnogi eu safbwynt y dylid lleihau'r oedran pleidleisio. Fe dynnwyd fy sylw hefyd at y ffaith bod y bobl ifanc yn credu nad oes digon o wybodaeth ar wahanol systemau gwleidyddol Prydain ar gael yn ein hysgolion. Byddaf felly'n codi'r mater gyda Jane Hutt AC, y Gweinidog Addysg, gan fy mod yn awyddus iawn i sicrhau bod y genhedlaeth ifanc yn cael y cyfle mwyaf posibl i ymwneud â gwleidyddiaeth gan fod y penderfyniadau sy'n cael eu cymryd ym Mae Caerdydd a San Steffan yn effeithio arnynt hefyd.




# Un 'Clap a Chân' fach arall



*Llun: Marian Delyth*

Llun disgyblion Ysgol Rhydypennau yn 1983 sydd ar glawr y gyfrol *Clap a Chân i Dduw* fu sbardun y rhaglen deledu yn ddiweddar Lle Aeth Pawb. Yn y llun gwreiddiol enwau'r disgyblion oedd: Elin Jenkins, Caren Williams, Iola Hughes, Siân Evans, Carys Roberts, Mair Thomas, Mared Jenkins, Ioan Evans ac Aled Jones.

Mewn pum mlynedd ar hugain bu llawer tro ar fyd. Mae Elin Hywel a fu'n byw yng Ngwlad Thai am rai blynyddoedd yn byw ac yn gweithio bellach yng Nghaerdydd yn ogystal â bod yn brysur fel mam. Bu Aled Jones hefyd yn teithio'r byd, gan fyw a gweithio yn Saudi Arabia ac yn Bejing yn China. Ar hyn o bryd mae yntau hefyd yn byw yng Nghaerdydd ac yn athro yn Ysgol Gymraeg Treganna. Yn Llundain mae chwaer Elin, sef Mared, yn byw. Hi yw un o brif brynwyr dillad y cwmni Cymreig Laura Ashley gan lwyddo i ddatblygu a defnyddio'r ddawn artistig a oedd ganddi fel disgybl.

At y cyfryngau y trodd Iola Wyn ac mae'n wyneb cyfarwydd i'r rhai hynny ohonon ni sydd yn gwylio'r rhaglen Ffermio. Felly, mae Iola'n ddigon prysur fel mam ac fel cyflwynwraig ac yn byw yn ardal San Clêr yn sir Gaerfyrddin. Rydym hefyd yn gyfarwydd iawn â gweld Ioan ar y teledu ac wrth gwrs yn cofio'i bortread o'r gweinidog 'drwg' ar Pobol y Cwm. Ar hyn o bryd mae wedi ymgartrefu gyda'i deulu yng Nghaerdydd. Un yn unig o'r criw sydd wedi symud i fyw i'r Gogledd. Mae Carys Owen yn gweithio i gwmni teledu yng Nghaernarfon ac wedi gallu manteisio ar ei thalent gerddorol




wrth gynhyrchu rhaglenni. Ers recordio'r rhaglen ganwyd merch iddi. Llongyfarchiadau!

Yr unig un na adawodd y pentref yw Siân sydd yn dal i fyw yng Nghaergywydd. Mae Siân yn ogystal â ffermio a bod yn fam yn gweithio yn y Labordai ymchwil yn IBERS (Gogerddan). Un arall na chrwydrodd ymhell o'i chynefin yw Caren Williams, ond fel Mrs Caren Phillips y caiff ei hadnabod bellach gan ei bod yn athrawes ymarfer corff yn Ysgol Pen-glais. Dyw Mair Thomas chwaith ddim wedi crwydro ymhell gan ei bod hi'n dal i fyw yn y sir. Ymgartrefodd yng Nghiliau Aeron ac yn ddigon prysur yn gweithio fel meddyg teulu ac fel mam.

Marian Delyth a dynnodd y llun gwreiddiol ac ymunodd â'r criw wrth iddynt ailymgynnull yn neuadd yr ysgol er mwyn cael llun ohonynt ar eu newydd wedd. Daeth Ann Evans yn ôl i fod wrth y piano ac i gadw trefn ar bawb y cynbrifathro, Mr Eddie Jones, awdur geiriau'r emynau yn y gyfrol.

# Cyngor Cymuned Trefeurig

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Trefeurig nos Fawrth, 13 Mai, yn Neuadd y Penrhyn. Cadeiriwyd gan y Cadeirydd, Cyng. Kari Walker, ac roedd wyth o'r cynghorwyr eraill yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cynghorydd Sir. Croesawyd pawb i'r cyfarfod yn arbennig yr aelod newydd, sef Trefor Davies o Ben-bont Rhydybeddau, a llongyfarchwyd Dai Suter ar ei ailethol yn gynrychiolydd Trefeurig ar y Cyngor Sir. Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Melvyn Evans a'r aelod newydd arall, Dafydd Sheppard. Penderfynodd y Cyngor nodi ei ddiolchgarwch diffuant i'r ddau aelod a oedd wedi penderfynu peidio ag ailgynnig am seddi eleni, sef Daniel Huws, Penrhyn-coch a Merfyn Hughes, Trawsnant, Cwmerfyn. Fe welid colli eu profiad a'u gwybodaeth helaeth am yr ardal. Bu Daniel Huws ar y Cyngor ers 1967 a Merfyn Hughes ers 1992.

Yn ei hadroddiad am y flwyddyn nododd y Cadeirydd fod y llwybr diogel i Ysgol Penrhyn-coch drwy'r cae chwarae wedi'i gwblhau, ac roedd gobaith am gael goleuadau ar ei hyd yn y dyfodol. Hefyd roedd y gwaith adfer ar Simnai Cwmsymlog wedi'i orffen, a byrddau gwybodaeth ac arwydd newydd wedi'u gosod ger y fan. Roedd gweithgor Neuadd y Penrhyn yn edrych ar ddyfodol y Neuadd, a GrÐp Datblygu Ysgol Trefeurig yn gweithio'n galed i geisio sicrhau adeiladau'r hen ysgol ar gyfer defnydd y gymuned. Roedd sbwriel a baw cÐn yn parhau'n broblem yn y Penrhyn, ond roedd y biniau baw cÐn a ddarparwyd yn ddiweddar wedi gwella'r sefyllfa. Byddai'n bwysig fod pobl yr ardal yn cymryd rhan lawn yn y broses o ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol yr oedd y Cyngor Sir yn ei baratoi.

Wedi hyn etholwyd Cyng. Richard Owen yn Gadeirydd ar gyfer 2008/09, a Cyng. Melvyn Evans yn Is-Gadeirydd. Dewiswyd y canlynol i gynrychioli'r Cyngor ar wahanol gyrff: Neuadd y Penrhyn, Pwyllgor – Gwenan Price, Gweithgor – Kari Walker; PATRASA, Gwenan Price; Cae Chwarae Pen-bont, Trefor Davies; GrÐp Datblygu Ysgol Trefeurig, Richard Owen; Cartref Tregerddan, Gwenan Price a Dai Rees Morgan; Un Llais Cymru, Richard Owen a Kari Walker; Rhoserchan, Daniel Jones; Y wasg, Richard Owen.

Yn y cyfarfod busnes a ddilynodd, nodwyd fod Cyngor Ceredigion wedi rhoi TÐ'r Ysgol, Trefeurig, ar werth, a hynny heb roi gwybod ymlaen llaw i'r GrÐp Datblygu nac i'r Cyngor Cymuned. Roedd y Cyngor o'r farn fod hyn yn ymddygiad annerbyniol iawn, a chytunwyd i gefnogi'r GrÐp Datblygu yn eu protest i'r Cyngor Sir.

Nodwyd fod rhai o drigolion Cwmerfyn wedi ysgrifennu at y Cyngor ynglÐn â'r sied y bwriedid ei chodi ar dir Banc Llety Spence. O ystyried maint y fferm, roedd hi'n anodd gweld bod angen sied fawr arall ar gyfer offer. Penderfynwyd pasio'r neges ymlaen i'r Cyngor Sir. Nodwyd fod Cyngor Trefeurig yn un o'r cynghorau cymuned a oedd wedi'u gwahodd i de parti ym Mhlas Buckingham. Byddai'r Cyng Kari Walker a'i phartner yn mynd.

Cyflwynodd y Clerc gyfrifon 2007/08 ac awdurdodwyd hwy gan y Cyngor. Diolchodd yr aelodau i'r Clerc am ei gwaith hynod fanwl a threfnus, yn ôl ei harfer, ar y cyfrifon. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ysgol Trefeurig, nos Fawrth, 17 Mehefin.

Mae Gwesty Cymru yn edrych am unigolion brwdfrydig a thalentog i ymuno â'r tîm llwyddiannus yn y bwyty ger y lli yn Aberystwyth.

STAFF GWEINI (Llawn Amser)

- Profiad blaenorol yn fanteisiol.
- Gallu sylfaenol i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

Ceisiadau drwy c.v yn unig at:
Gwesty Cymru
19, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth SY23 2AZ

GWESTY CYMRU
BWYTY Â LLOFFTYDD
★★★★★

CEFNOGWCH WYTHNOS
LLYFR YN ANRHEG
7-12 GORFFENNAF 2008

Y pleser a gaf wrth ddarllen

2008 Blwyddyn Darllen GENEDLAETHOL

## Wythnos Llyfr yn Anrheg – 7 i 12 Gorffennaf 2008

Fel un o brif ymgyrchoedd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru, bydd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar annog pobl o bob oed i roi llyfrau yn anrhegion i ffrindiau a theulu. Dyma ymgyrch y gall pawb drwy Gymru ymuno â hi, gan roi sylw gwych i lyfrau ac i ddarllen!

Gyda chefnogaeth papurau bro Cymru, mae'r gwaith o hyrwyddo Wythnos Llyfr yn Anrheg eisoes ar y gweill a bydd yn parhau hyd at yr wythnos ei hun. Mae posteri a nodau llyfr lliwgar wedi eu cynhyrchu, a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu'n eang i lyfrgelloedd a siopau. Gwneir ymdrech arbennig i sicrhau sylw yn y wasg a'r cyfryngau, gan ofyn i wahanol bersonoliaethau gyflwyno llyfrau i gyfeillion, a bydd hysbyseb radio arbennig yn cael ei chynhyrchu a'i darlledu'n eang er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor fawr â phosibl.

Bydd adran arbennig ar gyfer Wythnos Llyfr yn Anrheg ar wefan y Flwyddyn Darllen (www.blwyddyndarllengenedlaethol.org.uk) a bydd cyfle yno i aelodau'r cyhoedd nodi pa lyfrau y byddan nhw'n eu rhoi'n anrhegion yn ystod yr wythnos.

Mae darllen yn sgìl hanfodol ar gyfer pob agwedd ar fywyd ac mae'r Flwyddyn Darllen yn gyfle gwych i dynnu sylw at bwysigrwydd darllen ac i ddathlu pleser a mwynhad y gair ysgrifenedig. Gall darllen agor drysau i fydoedd newydd!

Cydlynir y Flwyddyn Darllen yng Nghymru gan Gyngor Llyfrau Cymru, gyda nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**AWDURON LLEOL**
Ceir adran am awduron lleol plwyf Trefeurig ar y wefan newydd www.trefeurig.org Rhestrir awduron a anwyd ym mhlwyf Trefeurig neu sy'n byw yma ar hyn o bryd .Os gwyddoch am awduron eraill sydd â chysylltiad â'r plwyf anfonwch air at: golygydd@trefeurig.org

**PODLEDIAD AWDUR LLEOL**
Yn ystod y flwyddyn bydd cyfres o bodlediadau yn cael eu rhyddhau ar wefan Llenyddiaeth Cymru Dramor www.llencymrudramor.org a'r cyntaf yn rhoi sylw i'r awdur o Benrhyn-coch Niall Griffiths ar daith yn Helsinki yn hyrwyddo'r cyfieithiad Ffinneg o'i ffuglen.

Mae'n siŵr fod fy hoffter o ddarllen yn deillio o gael fy magu mewn Mans yn y 50au. Aelwyd gysurus, ddi-deledu oedd hi; Monopoly, Scrabble a dyna fe! Beth arall allai plentyn ei wneud yn ystod nosweithiau tywyll y gaeaf ac ar Sadyrnau gwlyb, ond darllen?

Wedi meistroli'r "lori goch yn mynd i fyny'r bryn" a gweithio drwy'r *Llyfr Darllen Coch, Gwyrdd a Glas*, doedd dim troi'n ôl!

Pleser, nid gorchwyl fu darllen i mi o'r cychwyn. Ac roedd digonedd o ddeunydd yn ein tŷ ni, a silffoedd cypyrddau'r stydi'n gwegian cyfrolau o bob math, ymhob twll a chornel.

Llyfrau oedd anrhegion pen blwydd a Nadolig gan amla'. Yn achlysurol, cawn fynd ar sgowt i Lyfrfa'r Annibynwyr yn Abertawe i ddewis drosta'i fy hun. Ro'n i ar ben fy nigon!

Amser gwely, neu pan oeddwn yn sâl, darllenai mam yn helaeth i mi o *Lyfr Mawr y Plant*, a chofiaf ddotio ar Siôn Blewyn Coch a Siân Slei Bach a rholio chwerthin ar Bili'r Bwch Gafr a'i helyntion.



Er mwyn osgoi pethe diflas fel golchi'r llestri diflannwn i'r tŷ bach am gyfnodau amhenodol, i ddarllen. Fyddai mam byth yn dweud y drefn!

Cofiaf nhad droeon yn dychwelyd o daith bregethu â llyfr newydd ym mhoced ei got fawr; *Treasure Island* un tro; a minne'n colli cwsg am nosweithiau wrth ddychmygu'r Blind Pew brawychus ar fy ôl!

Cofiaf o hyd y wefr o berchnogi cyfrol newydd sbon – y bodio, arogli a manylu ar y lluniau lliw. Dotio ar *Little Women, The Wind in the Willows, Peter Pan* ac *Alice*; heb sôn am bob Enid Blyton dan haul a Just William.

Ces flas anhygoel ar *Luned Bengoch, Cwlwm Cêl* ac ati, cyn darganfod *Cysgod y Cryman* a gweddill nofelau Islwyn Ffowc Elis – yn fy arddegau.

Yn yr un modd, daeth y Brontes ac wrth gwrs y Brenin - Charles Dickens - yn ffefrynnau mawr. *Great Expectations* yw fy hoff nofel erioed.


A minne bellach wedi ymddeol (ble aeth y blynyddoedd, dwedwch?), yr un yw'r mwynhad. Nawr, caf amser a hamdden i bori yn Waterstones i ymlacio ble bynnag â llyfr da yn gwmni. Braf ein byd fod y fath wledd o lyfrau atyniadol, cyffrous yn llenwi silffoedd y siopau'r dyddiau hyn!

Ymhlith fy ffefrynnau mae Mihangel Morgan, Caryl Lewis, Ian MaCewan, Graham Swift, i enwi ond ychydig. Rhaid cyfadde' fod Niall Griffiths (*Stump*) sy'n byw bellach yn y Garth, Penrhyn Uchaf, yn dipyn o ffefryn; heb anghofio'r dewin geiriau ei hun, Dylan Thomas.

I mi, pleser yw ymgolli mewn cynllun gafaelgar, uniaethu â chymeriadau diddorol, a rhyfeddu at ddawn saernïwyr geiriau medrus.

Cwta fis, ac mi fyddaf yn nain am y tro cyntaf. A'r fath gyffro! Hei lwc y caf y fraint o ddarllen i'r bychan. A gore po gyntaf! Pwy ŵyr na chaiff yr un mwynhad o anturiaethau Wil Cwac Cwac ag y ces i?

Gobeithio'n wir!
**Non Evans**
**Penrhyn-coch**




6-8 Tachwedd

## Adolygiad

**Chwedlau Chwim,**
**Y Lolfa.**

Cyfres o bump o lyfrau bach lliwgar yn adrodd rhai o chwedlau traddodiadol Cymru yw Chwedlau Chwim. At blant rhwng saith a naw oed sy'n gallu darllen ar eu pen eu hunain maen nhw wedi eu hanelu, ond maen nhw'n hollol addas ar gyfer eu defnyddio i ddarllen y chwedlau i blant iau hefyd.

Mae'r storïau'n cael eu hadrodd yn raenus ac yn ddramatig ac mae'r lluniau sydd bob yn ail dudalen yn llawn mynegiant a naws, yn drawiadol felly yn stori Rhys a Meinir. Meinir Wyn Edwards, Llandre yw awdur y storiau, a Gini Wade o Lanidloes yw'r arlunydd.

Mae'r llyfrau'n cynrychioli gwahanol rannau o Gymru ac yn tarddu o wahanol gyfnodau yn hanes Cymru, fel y gwelir oddi wrth y pump testun sydd ar gael ar hyn o bryd, sef Rhys a Meinir, Maelgwn Gwynedd, Cantre'r Gwaelod, Gwylliaid Cochion Mawddwy, a Dic Penderyn.

Mae'n dda iawn gweld hanes Dic Penderyn yn cymeryd ei le ymhlith y chwedlau gwerin mwy traddodiadol, rhag i ddim un plentyn gael yr argraff mai dim ond i ryw fyd rhamantaidd afreal y mae gorffennol Cymru yn perthyn.

Efallai y byddai wedi bod yn ychwanegiad diddorol i nodi cyfnod ac ardal tarddu pob stori - ar gyfer rhieni ac athrawon yn ogystal ag ar gyfer y plant.

Am £1.95 yr un maen nhw'n fargen wirioneddol. Gobeithio bod rhagor o deitlau ar y gweill.

# Horeb a Robert ap Gwilym Ddu
# M. Euronwy James

Un o englynwyr gorau'r ganrif ddiwethaf oedd Robert ap Gwilym Ddu, ac er mai ffermwr o Eifionydd ydoedd, gwerthfawrogid ei waith yn ne Cymru yn ogystal ag yn y gogledd. Un prawf o hyn yw'r defnydd helaeth a wnaed trwy Gymru benbaladr o'i englynion beddargraff. Nid oes amheuaeth nad yw ef ymhlith yr awduron mwyaf poblogaidd yn y maes arbennig hwn, gyda Daniel Ddu o Geredigion a Chaledfryn hefyd yn hawlio lle amlwg ar feddfeini'r sir hon.

Y fynwent fwyaf nodedig yng Ngheredigion am grynhoad o englynion Robert ap Gwilym Ddu yw un Horeb (B), Penrhyn-coch. Yno ceir cymaint â naw ohonynt. Defnyddiwyd dau ohonynt ddwywaith, felly gwelir ei waith ar un bedd ar ddeg yn y fynwent. Mae'n bosib mai trwy hap a damwain y digwyddodd hyn; ond, eto, efallai mai cysylltiad y bardd â rhai o aelodau eglwys Horeb sydd i gyfrif am ei boblogrwydd anghyffredin ym Mhenrhyn-coch.

Fel y gŵyr pawb sydd â diddordeb yn hanes Horeb, trigai gwraig weddw o'r enw Lowry Poole ym mhlas Gogerddan tua dau gan mlynedd yn ôl. Daeth yma o gyffiniau Harlech pan benodwyd ei mab, William, yn oruchwyliwr ar yr ystad.

Yn y flwyddyn 1787 dymunai nith iddi, o'r enw Marged Simon, a'i ffrind Catherine Williams, gael eu bedyddio yn Harlech gan David Hughes, y cenhadwr a weithiai yn y parthau hynny ar y pryd. Modd bynnag, bwriadai ef fynychu Cymanfa Caerfyrddin ymhen ychydig fisoedd, felly achubodd ei gyfle i ehangu maes ei genhadaeth. Trefnwyd i'r ddwy ferch ifanc fynd i Blas Gogerddan ac iddo ef bregethu yn y plas ar y ffordd i'r gymanfa. Yn ystod yr oedfa cyhoeddodd y cynhelid gwasanaeth bedydd yn yr ardal yr wythnos ddilynol.

Dychwelodd o Gaerfyrddin a David Saunders o Aberduar gydag ef. Daeth tyrfa fawr ynghyd, a phregethodd D. Saunders iddynt yn ymyl pentref Bow Street cyn i D Hughes fedyddio Marged a Catherine yn afon Gyffin, ger Melin Ruel. Dyma'r waith gyntaf i neb weld bedydd o'r fath yng nghyffiniau Aberystwyth. Ymgartrefodd Catherine Williams yn yr ardal hon, ac y mae llawer o'i disgynyddion yma hyd heddiw.

Ymhen ychydig fisoedd wedi ymweliad David Hughes, bedyddiwyd nifer o bobl leol, ac yn eu plith yr oedd Margaret Poole, chwaer William, a gwraig weddw drigain oed o'r enw Ann Owen. Credir mai chwaer Lowry Poole oedd Ann. Dyma gnewllyn cychwyn achos y Bedyddwyr ym Mhenrhyn-coch, o dan weinidogaeth un John Williams o Drefriw.

A beth sydd gan hyn oll i wneud â Robert ap Gwilym Ddu? Hyn: sef mai perthynas i'w dad oedd y gweinidog cyntaf, John Williams, un o chwiorydd ei dad oedd Lowry Poole, ac Ann Owen hefyd, fwy na thebyg; tra'r oedd Margaret Poole yn gyfnither iddo.

Yr oedd gan Robert ap Gwilym Ddu o leiaf un cysylltiad arall ag eglwys Horeb. Os eir i'r fynwent, gwelir ar yr ochr isaf i'r llwybr, ger drws y capel, fedd i ddau o weinidogion yr Efengyl. Ar ben y bedd y mae carreg i goffau'r Parchedig William Roberts a fu'n weinidog ar eglwysi Pen-parc a'r Ferwig, ac a fu farw yn y flwyddyn 1874 yn 73 oed. Ar y garreg y mae'r englyn toddaid a ganlyn gan awdur anhysbys:

Roberts oedd ddiarhebol – am riniau
Mireinwedd dyn duwiol,
Ei brydferth bregeth nerthol, - a'i afiaith;
Ni fu cyfanwaith yn fwy cyfunol.

Yn gorwedd ar yr un bedd y mae carreg las i goffau'r Parchg Simon James, gweinidog ym Mhenrhyn-coch, Tal-y-bont a Goginan. Bu ef farw'n ddyn ifanc 37 oed ar Ionawr 24ain, 1827. Er mai yn Eglwys-wen, Sir Benfro, y ganed ef, treuliodd tua phymtheng mlynedd o'i oes yng ngogledd Cymru. Bu'n genhadwr yn siroedd Môn, Caernarfon a Dinbych, cyn ymsefydlu'n weinidog ar eglwysi wrth odre mynyddoedd yr Eifl. Pregethodd droeon yng nghapel Horeb, Garn Dolbenmaen, ac y mae'n debygol mai dyna pryd y daeth Robert ap Gwilym Ddu i'w adnabod, gan ei fod yn mynychu cyfarfodydd yn y capel hwnnw.

Symudodd y Parchg Simon James i Geredigion tua mis Mawrth 1826, ond ni chafodd fyw'n hir wedi hynny. Ymddangosodd cofiant byr iddo yn Greal y Bedyddwyr yn Ebrill a Mai 1827, ac ym mis Tachwedd 1828 cyhoeddwyd yn yr un cylchgrawn englyn o waith Robert ap Gwilym Ddu i'w rhoi ar ei garreg fedd. Wele'r englyn sydd ar y beddfaen:

O garchar daear deui – foreu barn,
O fru bedd Cyfod i;
Simon buost was imi;
Gwyliaf dy awr galwaf di.

Pa ryfedd, felly, fod y bardd wedi ennill ffafr yr ardalwyr, ac yntau wedi cyfansoddi englyn yn arbennig i'w roi ym mynwent Horeb?

**M. Euronwy James**
Cyhoeddwyd gyntaf yn *Y Tincer 37* (Mawrth 1981). Cyhoeddwyd hefyd ar wefan plwyf Trefeurig. www.trefeurig.org




Clwb Cymdeithasol
Pêl-droed
Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

# Ymwelwyr o Bennsylvania

Bu gwraig o Bennsylvania, Unol Daleithiau America a'i gŵr yn treulio penwythnos yn Bow Street yn ddiweddar. Roedd Dorothy Jane a Jay Thomas sy'n byw yn Harveys Lake, ger Wilkesbarre yn awyddus i gyfarfod â rhai o gefnderwyr Dorothy, a cherdded ar dir ei gwreiddiau. Ymfudodd ei hen dad-cu David Jones o Ben-cefn, Penrhyn-coch a'i frawd Morgan i Edwardsville ym 1880. Priododd David â Catherine, a anwyd yn Aberystwyth a'i theulu yn hanu o Ferthyr Tydfil, a chawsant 16 o blant. Priododd Morgan hefyd â merch a hanai o Gymru a chawsant 6 o blant. Yn ôl yr hanes bu'r ddau frawd yn weithgar iawn yn eu hardaloedd, yn gynghorwyr yn eu cymunedau, a blaenoriaid yn eu capeli. Bu David yn weithgar yn sefydlu capel gyda'r Parch T C Edwards - Cynonfardd, ac mae'r achos yn dal i ffynnu heddiw, ac fe'i hadnabyddir fel The Dr Edwards Memorial Congregational Church of Edwardsville.

Mae gan Dorothy a Jay dri o blant, Joshua, Mathew a Gwenith, ac mae Joshua newydd raddio mewn diwinyddiaeth, mi fyddai ei hen-hen fam-gu Elizabeth Jones, Pen-cefn yn hynod falch o hyn, a hithau'n wraig grefyddol iawn, ac adwaenid hi a'i chwiorydd fel "y tair derwen" oherwydd cadernid eu ffydd.

Bydd Dorothy bob pum mlynedd yn casglu ugeiniau o ddisgynyddion David Jones at ei gilydd i'r hen gartref yn Harvey's Lake (lle mae Dorothy a'i theulu yn byw) i'r Jones Reunion – chwedl nhw, er mwyn cadw'r cyswllt yn fyw.

Cawsant groeso twymgalon gyda Gwynfor a'r teulu ym Mhen-cefn, a chyda Mrs Sally Jones ym Mryndryw a threuliwyd prynhawn cofiadwy yn eu cwmni. Cawsant hefyd gyfle i gyfarfod ag aelodau eraill o'r teulu – Les Jones, Bron-y-garn; Alun (Cyrus) Evans, Coedmor gynt, a Bethan Jones, Caergywydd gynt. Yng Nghaergywydd y ganwyd David Jones, ym 1859, a'i frawd Morgan ym Mroncastellan, Penrhyn-coch ym 1865 cyn symud ymlaen i Ben-cefn. Aethant i weld beddau eu hynafiaid ym mynwentydd Llanfihangel Genau'r-glyn a Phen-y-garn, ac i Lanbadarn Odwyn, ger Blaenpennal, lle mae bedd dad-cu a mam-gu David Jones, y ddau wedi marw ym 1833.

Buont mewn dwy oedfa yng Nghapel y Garn, lle bu eu hynafiaid yn addoli, ac fe'i croesawyd hwy yn gynnes gan y Gweinidog Y Parchg Wyn Rhys Morris. Arhosodd y ddau am y penwythnos gyda'u teulu sydd yn Gaerwen, sef Vernon a Dilys lle buont yn hynod o gartrefol. Yno cawsant hefyd gyfarfod ag Osian a Bethan, a'u plant Gruff ac Ifan, o bosibl y genhedlaeth ieuengaf o'r teulu. Byr fu eu harhosiad yn y wlad hon, a gofidient am na chawsant gyfle i ymweld â nifer eraill o'u perthnasau ac ymddiheurant am hynny.



Dorothy a Jay Thomas ar eu hymweliad â Bow Street

# Crwydrau Cambrian

Bu Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn cyd-weithio ag awdur lleol, Laurence Main, i ddatblygu cyfres o bedair taflen o lwybrau hunan dywysedig rhwng gorsafoedd ar rwydwaith y Cambrian.

**Y pedair yw:**

- Rhif 1 Y Borth – Aberystwyth (ar hyd Llwybr Arfordirol Ceredigion)
- Rhif 2 Llwyngwril - Abermaw
- Rhif 3 Caersŵs – Y Drenewydd (ar hyd Llwybr Hafren)
- Rhif 4 Cricieth - Porthmadog

Mae'r taflenni ar gael yn rhad ac am ddim o orsafoedd rheilffyrdd lle bo staff ar rwydwaith y Cambrian, Canolfannau Croeso Twristiaid lleol, neu trwy gysylltu'n uniongyrchol â Gerwyn Jones, Swyddog Datblygu Rheilffordd, d'o Trenau Arrica Cymru, Heol y Doll, Machynlleth, Powys, SY20 8BL Ffôn 07920 592 363 Gerwyn.Jones@arrivatw.co.uk



Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: R. C. Jenkins
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
8 y bore - 6 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES
ADEILADYDD

Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

M. Thomas
Plymwr lleol
Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymwr
Prisiau rhesymol
Ffôn symudol 07968 728 470
Ffôn ty 01970 820375

# YSGOL PEN-LLWYN

## Trip

Cawsom drip ardderchog i Amgueddfa Sain Ffagan yng Nghaerdydd. Roedd yn braf gweld yr amrywiaeth adeiladawyr ydym wedi bod yn sôn amdanynt yn ein gwersi hanes.

Roedd cael gweld yr eglwys a oedd yn mynd yn ôl i gyfnod y Tuduriaid yn uchafbwynt y diwrnod. Cafwyd cefndir Eglwys Sant Teilo o ardal Llandeilo, gan un o gyn ddisgyblion Penweddig, sef Miss Sarah Hughes. Roedd wedi paratoi cyflwyniad hynod ddiddorol i'r plant. Rhaid oedd talu ymweliad a'r siop felysion i gael profi danteithion 'slawer dydd cyn mynd adref. Ie, y "jeli bebis" gorau inni 'rioed flasu!





## Côr Ceredigion

Mae pedwar o blant blwyddyn chwech sef Annie Lewis, Tomos Watson, Roisin Robinson a Rhodri Jones wedi bod yn cynrychioli'r ysgol mewn ymarferion ar gyfer côr Ceredigion. Bydd y perfformiad yn Eglwys Llanbadarn yn cael ei recordio ac yn cael ei roi ar CD. Bydd cyngerdd yn y Neuadd Fawr ar y 24ain o Fehefin.

## Ymwelwyr o Awstria

Daeth dau ymwelydd o Awstria sydd wedi dod draw ar ymweliad o ysgol Craig yr Wylfa i'n gweld un amser cinio. Mae rhai ysgolion yn yr ardal wedi bod yn cysylltu gydag ysgolion yn Awstria, gan gynnwys ni yma ym Mhen-llwyn. Braf oedd eu gweld, a chawsom gyfle i ddanfon ein cyfarchion yn ôl gyda hwy i Awstria.



SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
Beth am roi cyfle i'ch plentyn chi fynychu Cylch Meithrin?
Mae
CYLCH MEITHRIN RHYDYPENNAU
yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar foreau Llun, Mawrth a Mercher yn ystod tymor yr ysgol rhwng 9 - 11 o'r gloch.
Croeso i blant o 2½ oed i fyny.
Mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu tra'n chwarae yng nghwmni ei gilydd.
Am wybodaeth bellach, cysyllter â Susan Davies ar 820065
CYLCH TI A FI RHYDYPENNAU
Mae'r Cylch Ti a Fi yn cyfarfod yn Neuadd Rhydypennau bob prynhawn dydd Iau yn ystod tymor yr ysgol, rhwng 2 - 3:30 o'r gloch.
Croeso cynnes i bob plentyn rhwng 0-2½ oed a'i rlant.

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

GWESTY Tynycornel HOTEL
Tal-y-llyn, Tywyn, Gwynedd LL36 9AJ
Gwesty moethus a chartrefol gyda golygfeydd godidog, bwyd blasus a chroeso cynnes. Beth am gael diwrnod i'w gofio ar ddydd eich Priodas, gyda'r cyfan o dan yr un to, a lleoliad perffaith ar gyfer tynnu'r lluniau holl bwysig yna.
Cinio dydd Sul traddodiadol; Prydau bar canol dydd; Te Cymreig; Cinio nos; Cinio busnes; Ystafell i gynnal pwyllgor neu gyfarfod gyda bwffe; Te angladd; Achlysuron arbennig - pen blwydd a phen blwydd priodas.
AM FWY O FANYLION FFONIWCH NI AR (01654) 782 282

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Gwasanaethau Arbennig

Er mwyn dathlu Neges Ewyllys Da eleni cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yn neuadd yr ysgol gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth y plant o'r Neges Heddwch sydd bellach yn draddodiad blynyddol ers dros hanner canrif. Blwyddyn chwech oedd yn gyfrifol am egluro hanes a thraddodiad y neges bwysig i weddill yr ysgol. Prif eiriau'r neges y flwyddyn hon oedd brwydro yn erbyn effaith newid hinsawdd.

## Rygbi Cenedlaethol yr Urdd

Gan fod bechgyn tîm rygbi'r ysgol wedi llwyddo ym mhencampwriaeth Ceredigion ychydig cyn y Pasg eleni, roeddynt yn cynrychioli'r sir yn y gystadleuaeth Genedlaethol ar Barc y Strade, Llanelli ar y 3ydd o Fai. O ystyried fod safon cyffredinol y gystadleuaeth yn uchel iawn a'r grŵp yr oeddynt ynddi yn hynod o anodd, fe chwaraeodd y bechgyn yn neilltuol o dda gan ddyfalbarhau hyd y chwiban olaf. Fe enillodd y bechgyn un gêm, a chafwyd dwy gêm gyfartal. Felly, er na chollwyd yr un gêm, methu wnaethant o drwch blewyn i fynd ymlaen i'r rownd gyn-derfynol ar geisiadau; hen dro ond perfformiad campus!




Tim rygbi'r ysgol ar ol perfformio'n wych yng nghystadleuaeth cenedlaethol yr Urdd ar Barc y Strade,Llanelli.

## Ceri Wyn Jones

Ar y 9ed o Fai roedd bechgyn blwyddyn 6 yn ffodus iawn i dderbyn sesiwn o farddoniaeth dan ofal Y Prifardd enwog, Mr Ceri Wyn Jones yng nghlwb rygbi Aberystwyth. Cafodd pawb fore buddiol iawn ac fe elwodd pob un ohonynt o'r profiad.

## Trawsgwlad

Ar ddydd Sadwrn, 10eg o Fai, bu nifer o blant yr ysgol yn cystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd. Daeth cannoedd o redwyr o'r safon uchaf i gaeau Blaendolau a chafwyd cystadleuaeth arbennig o dda. Rhedodd pob un o blant yr ysgol yn wych ac fe lwyddodd y canlynol i ennill medalau am lwyddo i ddod o fewn y tri cyntaf yn y tlws am y tîm gorau trwy Gymru gyfan!

Cyntaf-(Bechgyn – blwyddyn 4) Sion Ewart, Dinas Drakeley, Elis Lewis.

Trydydd-(Merched – blwyddyn 4) Ffion Evans, Lucy Ankin, Ffion Wyn Roberts.

Trydydd-(Merched – blwyddyn 5) Hannah Megan Miles, Bethan Henley,
Hannah Lee Bowen. Campus!

## Llun Ysgol Gyfan

Ar yr 20fed o Fai daeth cwmni ffotograffiaeth Tempest i'r ysgol er mwyn tynnu llun yr ysgol gyfan. Dyma'r ail dro i'r ysgol fentro tynnu llun ysgol gyfan ac yr oedd hi'n dipyn o gamp sicrhau fod pawb yn gwenu ar yr adeg iawn! Ac wedi derbyn y copi cyntaf ac o ystyried llwyth yr archebiadau, mae'r fenter wedi bod yn lwyddiant ysgubol.

## Colourscape

Ar y 14eg a'r 15ed o Fai fe aeth pob plentyn o'r Derbyn i flwyddyn 6 i Dal-y-bont i fwynhau profiad arbennig, sef 'Colourscape'. Pabell anferth llawn lliw trawiadol yw 'Colourscape' sydd wedi ei ddylunio gan ddyn lleol o'r Borth. Mae Mr Peter Jones yn arddangos ei babell arbennig yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol; ac felly roedd y plant yn ffodus iawn o gael y cyfle i fwynhau nifer o weithgareddau unigryw a thrawiadol tu hwnt.

## Eisteddfod yr Urdd

Yn hytrach na' ymlacio a mwynhau gwyliau'r hanner tymor bu nifer o blant ac athrawon yr ysgol yn mynychu Eisteddfod yr Urdd yn Sir Conwy. Perfformiodd pawb yn wych yn y rhagbrofion ac er i bedwar o'r pump eitem fethu o drwch blewyn i gyrraedd y llwyfan; llwyddodd Dafydd Siôn Rees nid yn unig i gyrraedd llwyfan Y Pafiliwn ond dyfarnwyd mai ef oedd y chwaraewyr pres gorau yng Nghymru! Hoffai'r ysgol ddiolch i'r plant am eu gwaith diwyd, y rhieni am eu cefnogaeth a chan' ddiolch hefyd i Mrs Helen Medi Williams a Mrs Eleri Roberts am eu hyfforddiant arbenigol dros yr wythnosau.

## Herio'r Haul

Ar y 3ydd o Fehefin fe ddaeth Nyrs yr Ysgol, Sioned Burrell i flwyddyn 1 a 2 er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o'r peryg sydd yn ein wynebu ni yn uniongyrchol o'r haul yn ystod yr adeg yma o'r flwyddyn. Bu'n cyflwyno ac esbonio yr hyn sydd angen gwneud er mwyn sicrhau diogelwch o gryfder yr haul. Hoffai'r ysgol ddiolch i Nyrs Sioned am ei chymorth a'i chyngor pwysig yn ystod y sesiwn.

## Côr Ceredigion

Mae 7 o blant blwyddyn 6 wedi bod yn brysur yn ymarfer yn ddiwyd yn ddiweddar er mwyn perfformio nifer o ganeuon gyda Chôr Ceredigion. Ar y 6ed o Fehefin, aethant i'r Eglwys yn Llanbadarn er mwyn recordio CD o'r caneuon yma. Mi fydd y CD ar werth yn y siopau cyn hir.



Dafydd Sion Rees a enillodd yr unawd pres yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghonwy.

## Llun yr Ysgol

Ar yr 8ed o Fehefin cafwyd ailymweliad i'r ysgol gan gwmni Tempest. Y tro yma y bwriad oedd tynnu lluniau y dosbarthiadau, y grwpiau amrywiol a berfformiodd yn ystod y flwyddyn a thimau chwaraeon yr ysgol. Mae'r lluniau ar gael i'w harchebu nawr.

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Celf a Chrefft

Llongyfarchiadau i nifer o ddisgyblion yr ysgol ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghonwy. Llwyddwyd i ennill nifer o wobrau yn yr adran Celf a Chrefft a gwelwyd y gwaith yn cael eu harddangos ar faes yr Eisteddfod. Dyma'r enillwyr:

Pyped Bl. 3 a 4
1af Mali Jones

Pyped Bl. 5 a 6
1af Angharad Davies

**Gwau/Crosio Bl. 5 a 6**
1af Emily Lewis

Pypedau Cywaith Bl. 2 ac iau
3ydd Ellie Dimmack, Jenny James, Nathan Mayes, Lewis Morgans

Pypedau Cywaith Bl. 5 a 6
3ydd Rosie James, Samantha Merry, Ryan Witts, Harry Walker

## Coginio

Ar ddydd Llun cyntaf Eisteddfod yr Urdd, teithiodd un ferch lwcus drwy'r tywydd difrifol i fyny i faes yr Eisteddfod. Nid canu na llefaru oedd pwrpas yr ymweliad ond i goginio! Trefnwyd cystadleuaeth gan Undeb Amaethwyr Cymru i ddisgyblion ysgol. Tasg y gystadleuaeth oedd paratoi rysait yn cynnwys cig eidion neu cig oen. Fel rhan o'r gystadleuaeth, gwahoddwyd y 6 gorau i fyny i goginio yn fyw ar y maes. Bu Samantha Merry yn ddigon ffodus i gael ei dewis i fod yn un o'r rhai ffodus. Bu wrthi yn ddiwyd ar stondin yr Undeb Amaethwyr yn coginio'i phryd bwyd. Er na fu'n ffodus i ennill, cafodd brofiad anhygoel. Gwelir rysait yr enillydd ar fwydlen y caffi newydd ar gopa'r Wyddfa. Da iawn ti Samantha.

## Glan-llyn

Roedd ein trip i Wersyll yr Urdd Glan-llyn yn hwyl a sbri gan fod cymaint o weithgareddau grêt yno. Y diwrnod cyntaf roedd rhaid i ni adeiladu rafft ac fe wnaeth Mr Evans sblashio ni! Yna roedd rhaid i ni geisio nôl potel bach o dan y dŵr ac fe gwympais i mewn i'r llyn rhewllyd - roeddwn i'n socian. Fy hoff weithgaredd oedd y cwrs Rhaffau Uchel sef cwrs antur i fyny yn y coed, ac roedd Miss Huws ofn! Roedd y tywydd yn boeth iawn, felly roedd pawb wedi blino ar y daith gerdded ar ôl i ni gerdded pedair milltir. Fin nos aethom i nofio ac fe ges i a'r merched lot o hwyl yn ceisio dwyn y fflôt oddi ar y bechgyn. Y diwrnod nesaf rhwyfon ni ar draws Llyn Tegid a chwarae gêmau ar draeth Llangywair. Fy hoff gêm oedd croesi o un canw i'r llall ac fe gwympodd Lowri i mewn i'r llyn! Diolch byth ein bod yn gwisgo siacedi achub. Nôl yn y gwersyll aethom draw i ynys fach yn y cwch hwylio i esgus chwarae '*Baywatch*' ac fe wthio ni Miss Huws i mewn i'r dŵr gyda chamera yn ei phoced! Ond camera *waterproof* y gwersyll oedd e felly cafon weld y lluniau fyny ar y sgrin wrth fwyta'n swper blasus. Roedd y disgo ar y noson olaf yn grêt...heblaw pan oedd Miss yn trio rhoi caneuon Cymraeg arno! Cyn mynd adref dalion ni'r trên bach o Lanuwchllyn i'r Bala; roedd pawb wedi mwynhau mas draw – ond yn barod i fynd adref.

**Alice Andrews**
**Blwyddyn 6**



Disgyblion yr ysgol wrthi yn mwynhau gollwng dwr o dan oruchwyliaeth diffoddwyr tan Gorsaf Aberystwyth


## Trawsgwlad yr Urdd

Cyn gwyliau'r Sulgwyn, teithiodd tri o ddisgyblion yr ysgol i lawr i Wersyll yr Urdd yn Llangrannog i gymryd rhan yn rasys trawsgwlad yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion. Ar ddiwedd y prynhawn, llwyddodd Matthew Merry i ddod yn gyntaf yn y ras i fechgyn blwyddyn 3 gyda Harri Horwood yn dynn wrth ei sodlau yn drydydd. Yn y ras i fechgyn blwyddyn 6, daeth Harry Whalley yn 9fed. Yn dilyn eu llwyddiant yma, bu Matthew a Harry Whalley yn rhedeg ar gaeau Blaendolau yng Ngŵyl Chwaraeon Cenedlaethol yr Urdd. Er gweld rhedwyr o bob cwr o Gymru, llwyddodd Matthew i ddod yn 4ydd a Harry yn 9fed unwaith yn rhagor. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.

## Iechyd

**Ymwybyddiaeth o'r haul, glendid personol ac Ysmygu**

Cafwyd ymweliadau amrywiol gan y nyrsus ysgol yn ddiweddar. Daeth Angharad a Sioned atom i drafod materion pwysig iawn. Cafwyd un sesiwn gyda'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 1 yn trafod ymwybyddiaeth o'r haul. Bu'r disgyblion yn sôn am bwysigrwydd bod yn ymwybodol o beryglon y haul. Buont yna'n sgwrsio gyda disgyblion blynyddoedd 3 a 4 am ysmygu a'r effaith a gaiff ar ein iechyd. Cafwyd cyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth gyda Bagiau Baco.



Blynyddoedd 1 a 2 y tu allan Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch.



Disgyblion blwyddyn 6 yr ysgol ar y daith o Lanuwchlyn i Bala yn ystod eu hymweliad a Gwersyll Glan-Llyn

Bu disgyblion blynyddoedd 5 a 6 yn sgwrsio gyda'r nyrs am dyfu i fyny ynghyd â glendid personol. Cafwyd cyfle i wylio fideo ac yna i ofyn cwestiynau. Diolch i Angharad ac i Sioned am eu parodrwydd i ddod i mewn i'r ysgol i sgwrsio gyda'r disgyblion.

## Eglwys

Fel rhan o waith y tymor, aeth disgyblion dosbarth 2 i'r Eglwys am y bore. Fe'u croesawyd gan y Ficer Mr Livingstone. Treuliwyd yr amser yn crwydro o amgylch yr Eglwys gan wrando ar Mr Livingstone yn sôn am hanes yr adeilad ynghyd â phwysigrwydd y gwahanol rannau e.e. y bedyddfaen a'r allor. Bu Mr Livingtine yna'n ddigon caredig i ateb cwestiynau a baratowyd gan y disgyblion. Diolch iddo y croeso.

## Injan Dân

Daeth ymwelwyr pwysig i iard yr ysgol cyn gwyliau'r Sulgwyn. Daeth diffoddwyr tân o Orsaf Aberystwyth atom. Cafodd yr ysgol i gyd gyfle i fynd o amgylch yr injan ac i ofyn cwestiynau am y gwahanol offer a'u defnydd. Bu cwestiynau di-ri a gwelwyd pawb wrthi yn mwynhau. Uchafbwynt y bore heb unrhyw amheuaeth oedd y pibau dŵr a'r llyn a grewyd ym mlaen yr ysgol. O dan goruchwyliaeth y diffoddwyr, cafwyd cyfle i bob un i ddefnyddio un o'r pibau wrth iddo ollwng dŵr. Ar y diwedd cafodd un disgybl gyfle i roi larymau a'r goleuadau arno. Diolch i'r diffoddwyr am eu hymweliad ac i Karen Roberts am drefnu'r ymweliad.

## Dydd Ewyllys Da

Ar brynhawn dydd Llun y 19fed o Fai cynhaliwyd Gwasanaeth Dydd Ewyllys Da yr ysgol. Thema'r gwasanaeth eleni oedd Y Byd yn Cynhesu. Bu disgyblion blwyddyn 6 wrth yn cymryd y prif rannau a chafwyd sôn am effaith ein bywydau ni ar wledydd eraill. Cafwyd sôn am effaith lefel y môr yn codi ynghyd â diffyg glaw mewn gwledydd. Da iawn i flwyddyn 6 am eu gwaith arbennig. Penderfynwyd edrych ar ffyrdd o arbed ynni o fewn yr ysgol ac i ddatblygu'r ailgylchu a wnawn eisioes i gynnwys eitemau eraill.

## John Livingstone

Ar ôl y croeso a gafwyd yn yr Eglwys, croesawyd Mr Livingstone i'r ysgol. Daeth atom i roi gwasanaeth yn seiliedig ar ailgylchu. Diolch iddo am ei barodrwydd i ddod atom.



Enillwyr gwobrau Celf a Chrefft yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Corwen

*Blodau i bob achlysur*

**Blodau'r Bedol**

*Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur*

**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyncoch

**pennau craft and coffee shop**
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

**LLETY PARC**
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

# TASG Y TINCER


Gobeithio i chi fwynhau'r 'Steddfod. Ni lwyddais i fynd eleni, ond mi weles i lawer o'r cystadlu ar S4C Digidol, a mwynhau pob munud. Diolch i bawb liwiodd y llun o Sali Mali a'i ffrindiau y tro diwethaf. Cafodd y rhan fwyaf ohonoch y lliwiau'n gywir. Da iawn chi wir. Dyma pwy anfonodd eu gwaith ata'i:

Ffion Powell, 27 Maes Ceiro, Bow Street; Shaun Wyn Jones, Bronallt, Llandre; Ceri Ann Garratt, 12 Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch; Sarah Humphreys, Cae Gwylan, Y Borth; Glesni a Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau; Seren Pugh, 45 Tregerddan, Bow Street.

Ti, Seren, sy'n cael y wobr tro yma. Llongyfarchiadau!

Wyddoch chi beth weles yn y môr ger y Borth rai dyddiau yn ôl? Na, nid cwch, na pherson yn nofio, na morlo, ond dolffin! Roedd yna nifer ohonyn nhw yn y dŵr i ddweud y gwir, ac 'rwy'n meddwl bod mam a dolffin bach yn eu canol hefyd. Ydech chi wedi gweld dolffiniaid o gwbl eleni? Mae sawl un wedi bod ger harbwr Aberystwyth. 'Rwy'n meddwl eu bod nhw'n hardd iawn, ac yn nofio mor rhwydd ac mor gyflym! Mae nhw'n edrych fel petaen nhw'n mwynhau chwarae rhwng y tonnau. Mae'n rhaid i rai dolffiniaid ddod i wyneb y dŵr bob hanner munud er mwyn anadlu, ond gall rhai eraill ddal eu hanadl am hanner awr! Mae'n nhw'n greaduriaid sy'n hoffi chwarae, ac mae'n nhw'n reit glyfar hefyd, gan fyw mewn grwpiau, neu 'pods', fel teulu. A wyddoch chi fod wythnos 21-29 Mehefin eleni yn Wythnos Genedlaethol Gwylio Morfilod a Dolffiniaid, o dan ofal corff o'r enw 'Sefydliad Gwylio'r Môr', neu'r 'Sea Watch Foundation'. Mae'r Sefydliad am i bobl fel ni helpu'r gwylwyr i edrych am forfilod a dolffiniaid yn y môr o amgylch Prydain, ac i ddweud wrth y Sefydliad os gwelwn ni rai ohonyn nhw. Dyma'r seithfed flwyddyn i hyn ddigwydd, ac mae'n ffordd o wybod faint o forfilod a dolffiniaid sydd yn nofio yn ein môr, ac i ddysgu am y ffordd y mae'n byw. Bydd un o wylwyr y Sefydliad Gwylio'r Môr yng Ngheinewydd rhwng 21 a 29 Mehefin, rhwng 9 y bore a 5 y prynhawn, os oes gennych chi ddiddordeb, neu beth am wneud ymdrech arbennig i drio gweld dolffiniaid yn ardal *Y Tincer* y mis hwn? Mae'n rhaid sbio yn reit ofalus cofiwch – 'falle mai darn bach o gynffon a welwch chi rhwng y tonnau, am eiliad yn unig!

Y gamp y tro hwn yw lliwio'r llun o'r dolffiniaid yn mwynhau nofio'n y môr. Cofiwch roi digon o liwiau i'r cregyn hefyd! Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Medi 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010

**Pwyllgor Apêl Plwyf Trefeurig**

**Nos Wener 5 Medi '08**

Barbeciw a Disgo a tynnu raffl (tocynnau ar werth gan aelodau'r Pwyllgor ac eraill).
Amser: 6.30
**Lleoliad**: Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch
**Cysylltwch â Delyth Jones 828 874**

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Peiriant golchi mawr
(duvets £3)
Gwasanaeth glanhau duvets
plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi,
llenni a.y.y.b.
Siop lanhau dillad
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 310 | MEHEFIN 2008